**Rhif: WG53751**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Eithriadau o ran cofrestru gofal plant a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

Chwefror 2026

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad ar yr eithriadau o ran cofrestru gofal plant a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn nodi newidiadau arfaethedig i'r rheolau ynglŷn â chofrestru gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd a datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Hoffem ddiolch i bob ymatebydd am rannu ei farn â ni.

## Y Camau y Mae Angen eu Cymryd

Er gwybodaeth yn unig y mae'r ddogfen hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: **ymgynghoriadgofalplantagwaithchwarae@llyw.cymru**

## Copïau ychwanegol

Cyhoeddir y crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennaeth ymgynghori ar ffurf electronig yn unig ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfennaeth ymgynghori: Eithriadau o ran cofrestru gofal plant a'r cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol

# Cynnwys

Cynnwys ... 3
Cyflwyniad ... 5
Cynigion ... 5
Dulliau o gasglu ymatebion ... 5
Fformat yr Adroddiad ... 7
Crynodeb o'r ymatebion – Rhan A: Adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau ... 9
Cwestiwn 1: ... 9
Cwestiwn 2: ... 10
Cwestiwn 3: ... 12
Cwestiwn 4: ... 15
Cwestiwn 5: ... 17
Cwestiwn 6: ... 21
Cwestiwn 7: ... 22
Cwestiwn 8: ... 26
Cwestiwn 9: ... 27
Cwestiwn 10: ... 29
Cwestiwn 11: ... 31
Cwestiwn 12: ... 34
Crynodeb o'r ymatebion – Rhan B: Datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Arfaethedig ... 37
Cwestiwn 13: ... 37
Cwestiwn 14: ... 40
Cwestiwn 15: ... 43
Cwestiwn 16: ... 44
Cwestiwn 17: ... 48
Cwestiwn 18: ... 51
Cwestiwn 19: ... 52
Crynodeb o'r ymatebion – Rhan C: Asesiadau effaith a chwestiynau gorfodol ... 56
Cwestiwn 20: ... 56
Cwestiwn 21: ... 59
Cwestiwn 22: ... 60
Cwestiwn 23: ... 61
Cwestiwn 24: ... 63
Cwestiwn 25: ... 65

Cwestiwn 26: ..... 65
Y Camau Nesaf ..... 68
Y Gorchymyn Eithriadau: ..... 68
Y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol: ..... 69
Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr ..... 70

## Cyflwyniad

Lansiodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ymgynghoriad 12 wythnos ar 'Eithriadau o ran Cofrestru Gofal Plant a'r Cynnig ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol' ar 11 Awst 2025.

Nod yr ymgynghoriad oedd ceisio barn gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys plant, teuluoedd, darparwyr (cofrestredig ac anghofrestredig) a sefydliadau cynrychiadol.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 3 Tachwedd 2025. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

### Cynigion

Rhoddodd ymatebwyr adborth ar y canlynol:

- y newidiadau a gynigiwyd i'r amgylchiadau lle nad yw'n ofynnol i ddarparwr gofrestru fel gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd
- y cynnig i ddatblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru
- yr effaith y gallai'r newidiadau hyn ei chael ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys y Gymraeg

### Dulliau o gasglu ymatebion

### Adborth ysgrifenedig

Gwahoddwyd safbwyntiau am y newidiadau arfaethedig i'r rheolau ynglŷn ag eithriadau o ran cofrestru gwasanaethau gwarchod plant a gofal dydd, ynghyd â datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, yn ystod cyfnod ymgynghori o 12 wythnos rhwng 11 Awst 2025 a 3 Tachwedd 2025. Cyhoeddwyd y brif ddogfen ymgynghori ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru, ynghyd â fersiynau addas i blant a hawdd eu deall. Gallai ymatebwyr gyflwyno eu safbwyntiau a'u sylwadau drwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu'n Saesneg, gan ddefnyddio naill ai'r prif ffurflenni ymateb, y fersiynau hawdd eu deall neu addas i blant neu drwy gyflwyno adroddiadau neu lythyrau. Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo'n helaeth ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

Cafwyd cyfanswm o 97 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys ymatebion llawn ac ymatebion a gwblhawyd yn rhannol. O blith y rhain, darparwyd 62 drwy'r

ffurflen ymateb ar-lein a gwnaeth 35 o ymatebwyr gyflwyno'r ffurflen ymateb drwy e-bost neu drwy lythyrau nad oeddent yn dilyn fformat arolwg yr ymgynghoriad. O blith y 97 o ymatebion, roedd 50 yn dymuno aros yn ddienw. Ni ellid ystyried ymatebion a gwblhawyd yn rhannol na chawsant eu cyflwyno.

Gofynnodd nifer o sefydliadau am estyniad byr i'r dyddiad cau. Cytunwyd ar hyn ac, o ganlyniad, cyflwynwyd 7 ymateb ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Cafodd y rhain eu hadolygu a'u hystyried wrth baratoi'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth ddemograffig

Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn cwblhau'r ffurflen ymateb ar-lein neu drwy e-bost 'Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?  Dewiswch bob un sy'n berthnasol'. Mae'r tabl canlynol yn dangos yr ymatebion a gafwyd (gan gynnwys y rhai a all fod â rôl ddeuol).

| | |
|---|---|
| Rwy'n aelod o gorff ambarél neu'n gweithio i awdurdod lleol | 37 |
| Rwy'n gweithio yn y sector gofal plant, gwaith chwarae neu weithgareddau | 46 |
| Rwy'n gwirfoddoli yn y sector gofal plant, gwaith chwarae neu weithgareddau | 3 |
| Rwy'n rhiant neu'n ofalwr i blentyn 0-12 oed | 10 |
| Rwy'n rhiant neu'n ofalwr i blentyn dros 12 oed | 4 |
| Rwy'n blentyn | 0 |
| Dim un o'r uchod | 8 |
| Byddai'n well gennyf beidio â dweud | 2 |

Gofynnwyd i ymatebwyr nodi hefyd a oeddent wedi cymryd rhan, neu'n bwriadu cymryd rhan, yn un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd fel rhan o'r ymgynghoriad. Dewisodd 13 'Ydw'.

## Grwpiau Ffocws

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru gyfres o grwpiau ffocws ar-lein yn ystod mis Medi 2025, fel y nodir isod:

- Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda darparwyr cofrestredig ar 22 Medi, lle roedd cyfanswm o 14 o gyfranogwyr yn bresennol. Roedd 2 gyfranogwr yn warchodwyr plant, roedd 2 yn gweithredu darpariaeth gofal dydd llawn, roedd 2 yn darparu gofal sesiynol, roedd 3 yn gweithredu darpariaeth chwarae ac roedd 5 yn gweithredu mewn sawl rhan o'r sector gofal plant a chwarae.

- Cynhaliwyd grŵp ffocws gyda darparwyr anghofrestredig ar 23 Medi, lle roedd cyfanswm o 11 o gyfranogwyr yn bresennol. Roedd 1 cyfranogwr yn gweithio yn y sector chwaraeon, roedd 2 yn gweithio yn y sector chwarae, roedd 1 mewn sefydliad ffydd, 1 yn sector y celfyddydau, 3 mewn sefydliadau cymunedol i blant a phobl ifanc, roedd 2 yn gweithredu darpariaeth ar ôl ysgol ac roedd 1 yn nani.

- Gyda chefnogaeth gan Cyswllt Rhieni Cymru, cynhaliwyd dau grŵp ffocws gyda rhieni/gofalwyr ar 16 a 30 Medi, lle roedd cyfanswm o 10 cyfranogwr yn bresennol.

**Ymgysylltu â Phlant a Phobl Ifanc**

Gwnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Plant yng Nghymru i gynnal sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc er mwyn rhoi cyfle iddynt rannu eu barn am faterion allweddol o'r ymgynghoriad. Er nad oedd y gweithdai hyn yn rhan o'r ymgynghoriad gan eu bod yn cael eu hystyried yn waith ymgysylltu, cafwyd gwybodaeth werthfawr o'r gwaith hwn. Cynhaliwyd tri gweithdy mewn lleoliadau gwahanol, ac roedd pobl ifanc rhwng 10 a 25 oed yn bresennol ynddynt. Caiff yr adroddiad a luniwyd gan Plant yng Nghymru ei gyhoeddi ar y cyd â'r adroddiad hwn.

**Fformat yr Adroddiad**

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Mae'n amlinellu pob cwestiwn o'r ymgynghoriad, ynghyd â'r data o'r ymatebion ysgrifenedig a chrynodeb o'r sylwadau a wnaed yn y cwestiwn hwnnw. Ni wnaeth pob ymatebydd a gyflwynodd ymateb ysgrifenedig ateb pob cwestiwn, ac ni wnaeth y rhai a ddewisodd ‘cytuno’, ‘anghytuno’, ‘ddim yn cytuno nac yn anghytuno’, neu ‘ddim yn gwybod’, ddarparu sylwadau bob amser.

Cafwyd ystod eang o adborth manwl gan ymatebwyr, a oedd yn cynnig gwybodaeth werthfawr. Dangosodd eu harsylwadau y gallai'r cynigion fod yn gam cadarnhaol i benderfynu pa ddarparwyr nad oes angen iddynt gofrestru a datblygiad arfaethedig Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gan hefyd nodi pryderon ac awgrymu meysydd y dylid eu hystyried ymhellach.

Mewn rhai achosion, roedd ymatebwyr yn cytuno â chynnig yn elfen cytuno/anghytuno cwestiwn ond gwnaethant godi pryderon neu nodi risgiau yn y sylwadau. Roedd rhai eraill yn anghytuno, ond eto gwnaethant nodi effeithiau cadarnhaol posibl. O ystyried natur gymhleth y sylwadau a gyflwynwyd, yn Rhan A (adolygiad o'r eithriadau), mae'r ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad wedi cael

eu dadansoddi yn ôl thema ac adroddir arnynt yn seiliedig ar y rhai oedd â sylwadau cefnogol a'r rhai oedd â sylwadau a fynegodd risgiau neu bryderon, yn hytrach na chrynhoi ymatebion yn ôl y categorïau cytuno ( 'cytuno', 'anghytuno', 'ddim yn cytuno nac yn anghytuno', neu 'ddim yn gwybod'). Yn rhannau B (datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol) ac C (asesiadau effaith a chwestiynau gorfodol), mae'r sylwadau wedi cael eu dadansoddi yn ôl thema ac adroddir arnynt yn seiliedig ar themâu allweddol heb eu rhannu yn unol â'r risgiau, y pryderon neu'r elfennau cadarnhaol a nodwyd.

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau a oedd yn cynnwys sawl thema. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau a oedd yn cydbwyso'r agweddau cadarnhaol a negyddol, yn eu barn nhw, ar gynigion penodol. Mewn achosion o'r fath, mae'r themâu amrywiol ac ar wahân mewn un ymateb wedi cael eu categoreiddio'n unigol. Dangosir nifer yr ymatebwyr a gododd yr un pwynt mewn cromfachau ar ôl pob thema.

Mae'r adroddiad wedyn yn crynhoi gwybodaeth a gafwyd o'r grwpiau ffocws. Ymgynghorwyd â chyfranogwyr y grwpiau ffocws ynglŷn â detholiad o gwestiynau a oedd yn deillio o'r ddogfen ymgynghori. Dewiswyd y cwestiynau ar gyfer pob grŵp ffocws yn seiliedig ar eu perthnasedd i'r grŵp hwnnw a'r potensial i ddarparu gwybodaeth ystyrlon ar gyfer yr ymgynghoriad. Ceir crynodeb o'r ymatebion a gafwyd o dan yr is-benawdau perthnasol. Ni wnaethom ofyn pob un o gwestiynau'r ymgynghoriad i bob grŵp ffocws. Fodd bynnag, lle gofynnwyd cwestiwn, darperir crynodeb o'r ymatebion. Cafodd geiriad y cwestiynau ei addasu rywfaint o'r ddogfen ymgynghori wreiddiol er mwyn sicrhau bod y cwestiynau yn ennyn diddordeb ac yn addas ar gyfer amgylchedd grŵp ffocws. Cyfeiriwyd yr holl gyfranogwyr at y ddogfen ymgynghori, gan eu hannog i'w gwblhau os oeddent yn dymuno ymateb i bob cwestiwn.

Gan mai adroddiad cryno yw hwn, caiff yr ymatebion eu trefnu yn themâu allweddol, ac ni chaiff pob pwynt ar gyfer pob cwestiwn ei gynnwys.

Ar ddiwedd pob cwestiwn, mae adran yn amlinellu ymateb Llywodraeth Cymru, sy'n dod i gasgliadau yn seiliedig ar yr adborth ar yr ymgynghoriad.

## Crynodeb o'r ymatebion – Rhan A: Adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau

Mae'r adran ganlynol yn nodi manylion yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â'r Adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau.

**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai unigolyn weithredu fel gwarchodwr plant os ydynt: yn rhiant i'r plentyn, neu os oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant amdano; os ydynt yn rhiant maeth i'r plentyn; yn berthynas; neu'n byw yn yr un cartref â'r plentyn?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 59.6% | 53 |
| **Anghytuno** | 25.8% | 23 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 14.6% | 13 |
| **Ddim yn gwybod** | 0.0% | 0 |
| | | **89** |

Roedd y **mwyafrif** (59.6%) o'r ymatebwyr yn **cytuno** na ddylai person weithredu fel gwarchodwr plant os yw: yn rhiant i'r plentyn, neu os oes ganddo gyfrifoldeb rhiant amdano; yn rhiant maeth i'r plentyn; yn berthynas; neu'n byw yn yr un cartref â'r plentyn?

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cyflwynwyd 41 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Dylid nodi bod ymatebwyr wedi gwneud sylwadau ynglŷn â chymhlethdod y cwestiwn, gyda rhai yn amlinellu eu profiad a'u dryswch posibl o ran geiriad y cwestiwn (6)

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod yr eithriad hwn yn sicrhau na all rhieni gael cyllid am ofalu am eu plentyn eu hunain ac felly nad ydynt yn cael eu hariannu fel gwarchodwyr plant i ofalu am eu plant eu hunain (6)

- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo bod y newid yn cydnabod bod gofalu am y teulu yn rhywbeth ar wahân i wasanaeth gwarchod plant ffurfiol (4)
- Nododd nifer bach y byddai'r cynnig i aileirio yn sicrhau bod yr Eithriadau yn gyson â diffiniadau cyfreithiol, gyda rhai yn crybwyll Deddf Plant 1989 yn benodol (3)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo bod y newid yn caniatáu i rieni ddewis pwy sy'n gofalu am eu plentyn (3)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo bod y newid yn gwella cysondeb ac eglurder rhwng deddfwriaeth a chanllawiau (3)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Nododd rhai ymatebwyr effaith negyddol bosibl ar fynediad at ofal plant a chynaliadwyedd y sector, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle gall dewisiadau gofal plant fod yn fwy cyfyngedig (6)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr fod diffyg cydraddoldeb ar draws y sector oherwydd bod rhieni sy'n gweithio gyda mathau eraill o ddarparwyr o fewn y sector, er enghraifft lleoliad gofal dydd, yn gallu hawlio cyllid ar gyfer eu plentyn (3)

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig na ddylai person weithredu fel gwarchodwr plant os yw: yn rhiant i'r plentyn, neu os oes ganddo gyfrifoldeb rhiant amdano; yn rhiant maeth i'r plentyn; yn berthynas; neu'n byw yn yr un cartref â'r plentyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid caniatáu i berthynas i'r plentyn neu unigolyn sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn weithredu fel gwarchodwr plant cofrestredig ar gyfer plentyn sy'n perthyn iddynt neu blentyn y maent yn byw gyda nhw, ar yr amod bod pob un o'r amodau canlynol yn cael eu bodloni:

- Nid ydynt yn rhiant i'r plentyn ac nid oes ganddynt gyfrifoldeb rhiant am y plentyn,
- Nid nhw yw gofalwr maeth y plentyn,
- Nid yw'r gofal yn digwydd yng nghartref y plentyn, ac
- Mae'r gofal ar gael i blant nad ydynt yn perthyn iddynt.

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 56.2% | 50 |
| **Anghytuno** | 19.1% | 17 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 20.2% | 18 |
| **Ddim yn gwybod** | 4.5% | 4 |
| | | **89** |

Roedd y **mwyafrif** (56.2%) o'r ymatebwyr yn **cytuno** y dylid caniatáu i berthynas i'r plentyn neu unigolyn sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn weithredu fel gwarchodwr plant cofrestredig ar gyfer plentyn sy'n perthyn iddo neu blentyn y mae'n byw gydag ef, ar yr amod bod yr amodau penodedig a amlinellwyd uchod yn cael eu bodloni.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cafwyd 38 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y newid yn cefnogi teuluoedd a'r sector gofal plant drwy egluro'r amgylchiadau lle gall aelod o'r teulu ddarparu gofal cofrestredig i blentyn a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd y sector, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig (5)
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y byddai'r newid yn sicrhau na all rhieni gael cyllid am ofalu am eu plentyn eu hunain (5)
- Roedd rhai yn credu bod sicrhau bod cysondeb rhwng deddfwriaeth a chanllawiau yn rhoi eglurder i ddarparwyr a theuluoedd (4)
- Roedd rhai o'r farn bod y newid yn hyrwyddo dewis y rhieni sy'n arbennig o bwysig i blant ag anghenion ychwanegol neu anabledd (4)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Nododd rhai ymatebwyr ddryswch ynglŷn ag ystyr gofal nad yw'n digwydd yng nghartref y plentyn (7)
- Nododd rhai bryderon y gall aelodau o deuluoedd sy'n bodloni'r amodau gofrestru er mwyn manteisio ar gyllid yn unig a pheidio â chynnig gofal y tu hwnt i'w teulu (6)
- Nododd nifer bach bryderon mewn perthynas â sicrhau cydbwysedd rhwng hyblygrwydd a diogelu (2)

- Mynegodd nifer bach y farn y dylid caniatáu gofal yng nghartref y plentyn (2)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr bwysigrwydd diffiniadau a chanllawiau clir (2)
- Mynegodd nifer bach bryderon ynglŷn â chymhlethdod geiriad y cwestiwn a dryswch posibl o ganlyniad i hynny (2)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Mynegodd sawl cyfranogwr ddryswch ynghylch y cynnig, yn enwedig ei eglurder a'i oblygiadau. Er bod rhai o blaid yr egwyddor o ganiatáu i aelodau o'r teulu ddarparu gofal pe baent wedi'u cofrestru, roedd y rhan fwyaf o'r farn bod y geiriad yn amwys a gwnaethant godi pryderon ynglŷn ag achosion posibl o gamddefnyddio cynlluniau fel Cynnig Gofal Plant Cymru.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr y dylai cofrestru fod yn ddewis personol, ond bod yn rhaid i'r rhai hynny sy'n cofrestru gyrraedd yr un safonau proffesiynol â gwarchodwyr plant eraill. Nodwyd mai gallu darparu Cynnig Gofal Plant Cymru yw'r prif gymhelliad dros gofrestru fel gwarchodwr plant, er bod rhai o'r farn y byddai'r broses yn feichus.

Yn gyffredinol, galwodd cyfranogwyr am eiriad cliriach a gwahaniaeth rhwng gofal anffurfiol gan aelod o'r teulu a gwasanaeth gwarchod plant proffesiynol er mwyn diogelu uniondeb y sector.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig y dylid caniatáu i berthynas i'r plentyn neu unigolyn sy'n byw yn yr un cartref â'r plentyn weithredu fel gwarchodwr plant cofrestredig ar gyfer plentyn sy'n perthyn iddo neu blentyn y mae'n byw gydag ef, ar yr amod bod yr amodau penodedig yn cael eu bodloni, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau sy'n ymwneud â gwarchodwyr babanod (babysitters), nanis ac au pairs:

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Ddim yn gwybod | Ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Cysoni'r eithriadau mewn perthynas â nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod | 58.8% (50) | 23.5% (20) | 10.6% (9) | 7.1% (6) | (85) |
| Cael gwared ar y cyfyngiad amser o 6pm-2am ar gyfer gwarchodwyr babanod | 59.3% (51) | 23.3% (20) | 14.0% (12) | 3.5% (3) | (86) |
| Cyfyngu ar nifer y teuluoedd y gall gwarchodwyr babanod ofalu amdanynt ar yr un pryd i 2 | 69.0% (60) | 17.2% (15) | 12.6% (11) | 1.1% (1) | (87) |
| Nodi'n glir y dylai'r trefniadau gofal gael eu gwneud rhwng y darparwr a rhieni'r naill deulu neu'r llall | 80.2% (69) | 8.1% (7) | 10.5% (9) | 1.2% (1) | (86) |
| Ar gyfer gofal mewn safle domestig, nodi bod y gofal i'w ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng nghartref y naill neu'r llall o'r ddau deulu | 73.6% (64) | 11.5% (10) | 11.5% (10) | 3.4% (3) | (87) |
| Ar gyfer safle annomestig, nodi'n glir bod y gofal i ddigwydd mewn safle annomestig (a allai gynnwys er enghraifft: gwesty neu dŷ llety) o ddewis y rhieni | 64.7% (55) | 16.5% (14) | 14.1% (12) | 4.7% (4) | (85) |

Roedd y **mwyafrif** o'r ymatebwyr (58.8% ac 80.2%) yn **cytuno** y dylai'r ffactorau a nodir uchod fod yn gymwys i'r eithriadau ar gyfer gwarchodwyr babanod, nanis ac au pairs.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cyflwynwyd 34 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y bydd y cynigion hyn yn newid darpariaeth er mwyn diwallu anghenion teuluoedd sydd angen gofal plant hyblyg fel y gellir diwallu anghenion teuluoedd modern sy'n gweithio (5)
- Roedd nifer bach yn teimlo bod y newid yn caniatáu ar gyfer dewis y rhieni (3)
- Dywedodd nifer bach o ymatebwyr y bydd cydlynu diffiniadau a disgwyliadau ar draws rolau yn lleihau dryswch ac yn gwella cysondeb (2)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr yn teimlo bod y newid yn creu mwy o wahaniaeth rhwng gwarchodwyr babanod a gwarchodwyr plant (1)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr o'r farn bod cysylltu gwarchodwyr babanod â nanis ac au pairs yn creu disgwyliad eu bod yn gweithredu dan amgylchiadau tebyg a bod disgwyliadau tebyg ohonynt (1)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai fod terfyn ar nifer y plant y gofelir amdanynt yn hytrach nag ar nifer y teuluoedd (8)
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen eglurder o ran ystyr ‘safle annomestig’ (6) a chwestiynodd nifer bach iawn a allai defnyddio lleoliadau o'r fath achosi dryswch a golygu eu bod yn cael eu hystyried fel gofal dydd (1)
- Nododd rhai y dylai fod gwahaniaeth clir rhwng nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod (5) – roedd y rhesymau yn cynnwys y ffaith y gall nani feddu ar fwy o gymwysterau, contract, hawliau cyflogaeth a dyletswydd gofal i'r cyflogwr
- Cynigiodd nifer bach y dylid diwygio'r geiriad fel ei bod yn ofynnol i'r ddwy set o rieni wneud trefniadau gyda darparwr (4)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr y dylai unrhyw ddarparwr sy'n gofalu am blant—oni bai ei fod yn aelod agos o'r teulu neu'n berthynas—fod yn wasanaeth cofrestredig (2)

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Roedd adborth a sylwadau gan gyfranogwyr y grŵp ffocws yn gyfyngedig ac yn gymharol niwtral. Roedd un cyfranogwr yn croesawu'r hyblygrwydd ychwanegol cyn 6pm, gan nodi bod hynny'n adlewyrchu patrymau gweithio modern yn well. Roedd un arall yn teimlo na fyddai'r newidiadau arfaethedig yn cael effaith sylweddol ar rôl nanis. Nododd cyfranogwr arall er bod plant yn fwy agored i niwed dros nos, byddai gan y rhai sy'n gofalu amdanynt lai o gyfrifoldebau gofalu.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y newidiadau arfaethedig i'r eithriadau mewn perthynas â gwarchodwyr babanod, nanis ac au pairs, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn darparu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 10 oed neu'n hŷn, a lle mai nod y ddarpariaeth ar gyfer y plant 10 oed yw eu cefnogi wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd a'u helpu o ran anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 50.5% | 46 |
| **Anghytuno** | 33.0% | 30 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 14.3% | 13 |
| **Ddim yn gwybod** | 2.2% | 2 |
| | | **91** |

Roedd **ychydig dros hanner** yr ymatebwyr (50.5%) yn **cytuno** na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd os yw'n darparu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 10 oed neu'n hŷn, a lle mai nod y ddarpariaeth ar gyfer y plant 10 oed yw eu cefnogi wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd a'u helpu o ran anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol

### *Crynodeb o'r sylwadau*

Cyflwynwyd 43 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo y bydd y newid yn golygu y gellir cefnogi plant yn ystod eu blwyddyn olaf yn yr ysgol gynradd a'u helpu i bontio i addysg uwchradd (13)
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y newid yn adlewyrchu sut mae darpariaeth yn gweithio yn ymarferol ar hyn o bryd ac y byddai diwygio'r eithriad yn adlewyrchu realiti gwaith ieuenctid sy'n canolbwyntio ar bontio a gynhelir yn y gymuned yn well (6)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn mynegi pryder neu risg yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer yn teimlo y dylai fod rhyw fath o broses gofrestru ar gyfer plant 10 oed a throsodd (11), a nododd rhai o'r ymatebwyr hynny eu bod o'r farn y dylai pob darparwr gofrestru
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod gorgyffwrdd posibl rhwng gofal dydd cofrestredig sy'n gymwys i blant hyd at 12 oed a'r cynnig i'r eithriad hwn fod yn gymwys o 10 oed, a allai arwain at ddryswch posibl (9)
- Tynnodd rhai sylw at bwysigrwydd canllawiau clir (7) a nododd nifer bach iawn fod angen cymryd gofal i sicrhau nad yw rhieni yn camddeall ac yn camddefnyddio gwaith ieuenctid fel gofal plant (1)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn nad yw'r cynnig yn mynd i'r afael â phryderon a godwyd yn yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae mewn perthynas â chymhlethdodau newidiadau rheoliadol lle mae darparwyr yn cynnig gwaith chwarae a gwaith ieuenctid a nododd eraill fod angen cymryd gofal i sicrhau bod rhieni yn deall y gwahaniaeth rhwng gwaith ieuenctid a gofal plant (1)

### Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig

Roedd y cyfranogwyr o blaid y newid arfaethedig a gwnaethant nodi y byddai'n darparu ar gyfer y gefnogaeth gyda phontio a ddarperir gan wasanaethau ieuenctid i blant 10 oed. Nododd tri chyfranogwr bwysigrwydd y cyfnod pontio hwn i ddisgyblion Blwyddyn 6, yn enwedig yn ystod eu tymor olaf yn yr ysgol gynradd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwr gofrestru fel darparwr gofal dydd os yw'n darparu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 10 oed neu'n hŷn, a lle mai nod y ddarpariaeth ar gyfer y plant 10 oed yw eu cefnogi wrth bontio o addysg gynradd i addysg uwchradd a'u helpu o ran anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno:

5a mai 2 awr yw'r cyfnod priodol y dylai plant 4 oed neu'n iau gael bod mewn gweithgareddau coetsio a dysgu heb eu rhieni a heb i'r darparwr orfod cofrestru fel darparwr gofal dydd?

5b mai 4 oed neu'n iau yw'r ystod oedran briodol pan ddylid trin plant yn wahanol mewn perthynas â'r eithriad o ran coetsio a dysgu?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Ddim yn gwybod | Ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 awr yw'r cyfnod priodol y dylai plant 4 oed neu'n iau gael bod mewn gweithgareddau coetsio a dysgu heb eu rhieni a heb i'r darparwr orfod cofrestru fel darparwr gofal dydd | 50.0% (46) | 43.5% (40) | 4.3% (4) | 2.2% (2) | (92) |
| 4 oed neu'n iau yw'r ystod oedran briodol pan ddylid trin plant yn wahanol mewn perthynas â'r eithriad o ran coetsio a dysgu | 54.4% (49) | 38.9% (35) | 4.4% (4) | 2.2% (2) | (90) |

Roedd **hanner** yr ymatebwyr (50%) yn **cytuno** mai 2 awr yw'r cyfnod priodol y dylai plant 4 oed neu'n iau gael bod mewn gweithgareddau coetsio a dysgu heb eu rhieni a heb i'r darparwr orfod cofrestru fel darparwr gofal dydd. Roedd **ychydig dros hanner** yr ymatebwyr (54.4%) yn **cytuno** mai 4 oed neu'n iau yw'r ystod oedran briodol pan ddylid trin plant yn wahanol mewn perthynas â'r eithriad o ran coetsio a dysgu.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cafwyd 49 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Nododd llawer o ymatebwyr fod plant o'r oedran hwn yn agored i niwed a bod ganddynt fwy o anghenion gofal (16)
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo na fyddai dros ddwy awr o goetsio a dysgu yn briodol i ddatblygiad plant 4 oed neu'n iau (9)
- Roedd rhai o'r farn y byddai cyfnod hwy na 2 awr yn dod o dan gwmpas gofal plant (5)
- Mae nifer bach o ymatebwyr eisoes yn teilwra eu darpariaeth ar gyfer yr oedran hwn gyda sesiynau byr lle nad yw'r rhiant yn aros gyda'r plentyn neu'n credu nad oes fawr ddim darpariaeth sy'n mynd dros yr amser hwn (4)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai pob darpariaeth coetsio a dysgu i blant 4 oed neu'n iau fod wedi'i chofrestru er mwyn diwallu anghenion y plant os na fydd y rhieni'n bresennol (16)
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y dylai'r trothwy oedran fod yn uwch gan fod angen yr un lefel o safonau gofal, goruchwyliaeth a diogelu â'r hyn a ddarperir gan leoliadau rheoleiddiedig ar blant 5 oed a throsodd o hyd. Mae plant o'r oedran hwnnw yn dal i ddysgu drwy chwarae yn yr ysgol ac nid ydynt ar y cam datblygu i ymgysylltu'n ystyrlon am ddiwrnod llawn (9) – nododd nifer o'r ymatebwyr hynny fod angen terfyn amser ar gyfer plant 5-7 oed
- Mae nifer bach o ymatebwyr yn credu bod rhieni yn ystyried coetsio a dysgu fel math o ofal plant felly dylai gofynion diogelu fod yn gadarn (4)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo nad yw pob math o goetsio a dysgu yn addas ar gyfer cyfnodau estynedig (4)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y bydd angen canllawiau clir i helpu darparwyr ddeall y gwahaniaeth rhwng coetsio a dysgu a gweithgareddau yn seiliedig ar chwarae (4)

- Nododd nifer bach fod coetsio a dysgu weithiau'n cael eu harwain gan bobl heb unrhyw wybodaeth am ddiogelu na gofal plant (3)
- Roedd nifer bach yn teimlo y gallai'r newid arfaethedig arwain at yr angen i ddarpariaethau cymunedol gofrestru, cwtogi hyd eu sesiynau neu gau (2)
- Roedd nifer bach iawn yn teimlo bod trothwy dwy awr yn fympwyol ac nad oes tystiolaeth bod gweithgareddau sy'n para mwy na 2 awr yn peri mwy o risgiau diogelu (1)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Roedd nifer fawr iawn o'r cyfranogwyr yn anghytuno â'r cynnig. Gwnaeth rhai cyfranogwyr amlinellu gwahaniaeth rhwng darpariaeth sy'n canolbwyntio ar weithgaredd penodol a grwpiau mewn canolfannau hamdden sy'n darparu mathau amrywiol o weithgareddau chwaraeon a chelf. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo y dylai gofynion cofrestru a monitro fod yn gymwys i unrhyw un sy'n gyfrifol am blant, ni waeth am ba hyd nac ar gyfer pa fath o weithgaredd. Roedd y cyfranogwyr o blaid cael mesurau diogelu mwy llym, gwell eglurder a safonau cyson i amddiffyn y plant ieuengaf a mwyaf agored i niwed.

Pwysleisiodd y cyfranogwyr fod gan blant o dan 4 oed – yn enwedig y rhai nad ydynt yn yr ysgol yn llawn amser eto – anghenion gofal uchel, gan gynnwys gofal personol ac na ddylid eu gadael mewn amgylcheddau anrheoleiddiedig.  Roedd cefnogaeth gref o blaid cyflwyno trothwy oedran gofynnol a galwyd am ddiffiniadau cliriach o ran beth yw coetsio a dysgu o gymharu â gofal plant.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno ar y cyfan fod 2 awr yn gyfnod priodol i blant 4 oed neu'n iau gymryd rhan mewn gweithgareddau coetsio a dysgu heb fod angen i'r darparwr gofrestru. Roedd cyfranogwr o grŵp mewn lifrai o'r farn bod sesiynau byrrach yn fwy addas i anghenion datblygiadol plant iau a'u bod yn helpu i ddiogelu eu llesiant, gan gyfeirio at ei ymarfer ei hun lle mae'n cyfyngu sesiynau i'r grŵp oedran ieuengaf i un awr. Roedd cyfranogwr arall o'r sector chwarae a gwaith ieuenctid yn cefnogi'r safbwynt hwn ac yn teimlo bod terfyn o ddwy awr yn fesur diogelu rhesymol ar gyfer plant iau; roedd cyfranogwr arall a oedd yn cynrychioli grŵp ffydd yn cytuno â'r egwyddor hefyd.
Mynegodd cyfranogwyr sy'n gweithredu darpariaeth gofal plant (cofrestredig ac anghofrestredig) bryderon ynglŷn â darpariaethau anghofrestredig, yn enwedig mewn perthynas â chymwysterau'r rhai sy'n coetsio ac yn dysgu a phrosesau i'w goruchwylio.  Gwnaethant dynnu sylw at y risg y byddai darparwyr cofrestredig yn cael eu gorfodi i gau oherwydd cystadleuaeth gan ddarparwyr anghofrestredig a chwestiynu a yw'r ymgynghoriad yn ymdrin yn ddigonol â chymwysterau a chyfrifoldebau diogelu y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr yn cefnogi'r cynnig bod dwy awr yn uchafswm hyd priodol ar gyfer gweithgareddau coetsio a dysgu anghofrestredig i blant 4 oed neu'n iau. Cafwyd cydnabyddiaeth eang gan y cyfranogwyr fod gan blant iau anghenion gofal gwahanol, nad ydynt yn cyfathrebu cystal ar lafar ac nad ydynt yn gallu canolbwyntio am gyfnodau hir. Roedd sylwadau gan gyfranogwyr yn awgrymu eu bod yn teimlo y byddai plant bach yn ei chael hi'n anodd ymdopi â chyfnodau coetsio a dysgu hwy. Fodd bynnag, mynegwyd pryder cryf o ran diogelu, a nododd rhai cyfranogwyr na fyddent yn defnyddio gwasanaethau anghofrestredig ni waeth beth fo'r hyd. Roedd cyfranogwyr o'r farn y dylai gweithdrefnau goruchwylio a diogelu fod ar waith ar gyfer pob darparwr, ond nid gofyniad gofrestru fel darparwr gofal dydd o reidrwydd, fel ffordd o sicrhau diogelwch, atebolrwydd a thawelwch meddwl.

Roedd cytundeb cyffredinol hefyd y dylid trin plant 4 oed neu'n iau fel grŵp ar wahân mewn perthynas â'r eithriad. Nododd rhai cyfranogwyr, yn eu profiad nhw, fod eu plant yn gallu cyfathrebu'n well pan oeddent yn 4 neu 5 oed a'u bod yn teimlo'n fwy cyfforddus yn gadael eu plentyn pan oeddent yn cyrraedd yr oedran hwn. Nododd eraill fod 4 awr yn gyfnod hir i blant 4 a 5 oed o hyd a'u bod yn teimlo y gallai plant fynd yn flinedig o bosibl neu golli ffocws ar ôl y cyfnod hwn.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig mai:

- 2 awr yw'r cyfnod priodol y dylai plant 4 oed neu'n iau gael bod mewn gweithgareddau coetsio a dysgu heb eu rhieni a heb i'r darparwr orfod cofrestru fel darparwr gofal dydd, a
- 4 oed neu'n iau yw'r ystod oedran briodol pan ddylid trin plant yn wahanol mewn perthynas â'r eithriad o ran coetsio a dysgu,

ynghyd â gwaith i ystyried y dadansoddiad o'r sylwadau a oedd o blaid dull mwy cadarn o ymdrin â'r gofyniad i gofrestru, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dileu'r eithriad ar gyfer plant 2 oed neu'n iau a nodi y gellir coetsio neu ddysgu plant 3 a 4 oed am hyd at 2 awr y dydd yn unol â'r eithriad. Caiff y ddarpariaeth hon ei chynnwys yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddiwygio'r categorïau coetsio a dysgu o fewn y gorchymyn eithriadau i'r canlynol: (a) chwaraeon; (b) celfyddydau mynegiannol a chreadigol; (c) cymorth addysgol – gan gynnwys ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd; iechyd a lles; (d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 48.9% | 46 |
| **Anghytuno** | 33.0% | 31 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 12.8% | 12 |
| **Ddim yn gwybod** | 5.3% | 5 |
| | | **94** |

Roedd **tua hanner** yr ymatebwyr (48.9%) yn **cytuno** â'n cynnig i ddiwygio'r categorïau coetsio a dysgu o fewn y gorchymyn eithriadau i'r canlynol: (a) chwaraeon; (b) celfyddydau mynegiannol a chreadigol; (c) cymorth addysgol – gan gynnwys ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd; iechyd a lles; (d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cyflwynwyd 42 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y bydd y cynnig hwn yn rhoi mwy o eglurder i ddarparwyr a/neu rieni (5)
- Roedd nifer bach yn teimlo y bydd y newid hwn yn adlewyrchu darpariaeth yn fwy priodol (3)
- Roedd nifer bach o blaid cynnwys 'astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol' fel categori ar wahân er mwyn cydnabod gwerth addysgol cadarnhaol y gweithgareddau hyn (2)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr yn teimlo y dylai astudiaethau crefyddol gael eithriad y tu allan i goetsio a dysgu (1)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn mynegi pryder neu risg yn cynnwys y canlynol:

- Nododd llawer o ymatebwyr bwysigrwydd canllawiau clir a'r angen i ystyried i ba gategori y byddai gweithgareddau penodol yn perthyn (15)
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y categorïau yn rhy eang (9), yn enwedig gan fod 'iechyd a lles' ac 'astudiaethau diwylliannol' wedi cael eu cynnwys, ac roedd pryder y gallai hyn greu bylchau o ran rheoliadau a gwanhau prosesau goruchwylio.
- Roedd rhai o'r farn y dylid cofrestru pob darpariaeth (7)
- Mynegodd nifer bach bryderon ynglŷn â'r effaith ar waith chwarae (3)
- Cynigiodd nifer bach iawn y dylid ychwanegu Sgiliau Byw a Sgiliau Cymdeithasol, Lles a Hunanofal a Sgiliau Cyfathrebu er mwyn darparu mwy o gymorth i bobl ifanc niwroamrywiol, pobl ifanc ag anableddau a'r rhai ag iechyd meddwl ac iechyd emosiynol gwael (1)

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig i ddiwygio'r categorïau coetsio a dysgu ynghyd â gwaith i ystyried y dadansoddiad o'r sylwadau, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026 a datblygu canllawiau clir i gefnogi dealltwriaeth o'r eithriad hwn a'r broses o'i gymhwyso. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 68.4% | 65 |
| **Anghytuno** | 13.7% | 13 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 13.7% | 13 |
| **Ddim yn gwybod** | 4.2% | 4 |
| | | **95** |

Roedd y **mwyafrif** o'r ymatebwyr (68.4%) yn **cytuno** y dylai darparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cafwyd 44 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer o ymatebwyr yn teimlo bod cael un math o weithgaredd yn unig yn golygu bod yr eithriad yn canolbwyntio ar goetsio a dysgu gwirioneddol ac yn dileu'r cyfle i ddarparwyr gynnig darpariaeth aml-weithgaredd sy'n edrych yn debycach ofal plant ac felly y dylid rheoleiddio hyn (12). Mynegodd nifer bach o sylwadau y byddai'r newid hwn yn cau'r hyn y gellid ei ystyried yn ‘fwlch’.
- Roedd rhai yn teimlo ei fod yn ffordd o wella a chryfhau gweithdrefnau diogelu a/neu wella safon gofal drwy oruchwyliaeth reoleiddiol (5)
- Roedd rhai o'r farn y byddai'r cynnig yn cynyddu gallu rhieni i wahaniaethu rhwng gofal plant a dysgu (5)
- Roedd nifer bach yn credu y byddai'n cau'r hyn y gellid ei ystyried yn ‘fwlch’ sy'n caniatáu i ddarpariaeth anrheoleiddiedig weithredu gwasanaeth tebyg i ddarpariaeth gofrestredig (4)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr, hyd yn oed gydag un gweithgaredd, fod cwmpas i ddefnyddio elfennau gwahanol fathau o weithgareddau o hyd. Er enghraifft, gall sesiynau dysgu crefyddol neu ddiwylliannol ddefnyddio'r celfyddydau mynegiannol a chreadigol i gefnogi'r dysgu (1)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai o'r farn y dylid cofrestru pob darpariaeth (5)
- Nododd rhai ymatebwyr bwysigrwydd datblygu canllawiau ymarfer (5)
- Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryder y gallai ehangder rhai o'r categorïau arwain at ddarparwyr yn cynnig gweithgareddau niferus o hyd yn hytrach na choetsio a dysgu â phwyslais penodol (3)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr fod angen eglurder o ran darpariaeth a allai berthyn i fwy nag un math o gategori (3), gan nodi pryderon y gall rhai mathau o ddarpariaeth berthyn i sawl categori ac nad ydynt wedi'u cofrestru ar hyn o bryd. Pe bai'n ofynnol cofrestru'n llawn, gallai'r rhaglenni hyn ddod i ben o bosibl.
- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y gallai natur aml-weithgaredd darpariaethau yn seiliedig ar ffydd a chymuned olygu y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru, a mynegwyd pryderon y gallai hyn arwain at gau darpariaethau o'r fath a gaiff eu rhedeg gan wirfoddolwyr yn aml ac sydd ar gael am ddim neu'n rhad. Byddai hyn yn golygu bod llai o gyfleoedd i blant a byddai effaith benodol ar y rhai sydd mewn sefyllfaoedd o amddifadedd economaidd-gymdeithasol (2)

- Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryderon y gall fod yn anodd i blant iau ymgymryd â choetsio neu gyfarwyddyd sy'n canolbwyntio ar un gweithgaredd am gyfnodau estynedig, gan nodi y gallai newidiadau o'r fath leihau priodoldeb datblygiadol. Yn ogystal, gall y newid hwn roi pwysau ar ddarparwyr i gynnal diddordeb y plant a, thrwy hynny, leihau hyblygrwydd i ddiwallu anghenion unigol a chyfyngu ar amrywiaeth ac ymatebolrwydd, a allai effeithio ar ansawdd cyffredinol darpariaeth yn y pen draw.
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr ddiffyg sylfaen dystiolaeth i gefnogi'r newid, er enghraifft bod sesiynau aml-weithgaredd yn peri mwy o risgiau diogelu, bod y darpariaethau hyn yn drysu rhieni, bod cofrestru yn golygu bod gwasanaeth yn fwy diogel ac nad yw'r darpariaethau diogelu cyfredol yn ddigonol (1)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod dysgu yn y Cwricwlwm i Gymru yn gyfannol ac wedi'i gydblethu (1) ac roeddent yn teimlo y gallai lleihau nifer y gweithgareddau a ganiateir cyn cofrestru arwain at golli cyfle i ddatblygu sgiliau amrywiol (1)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr yn teimlo y gallai grwpiau crefyddol golli ymddiriedaeth ym mwriadau'r Llywodraeth (1)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr o'r farn na fyddai gan rai darparwyr y cymwysterau gofynnol i gofrestru o bosibl (1)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y posibilrwydd y gallai hyn achosi dryswch oherwydd caniateir dau weithgaredd yn Lloegr (1)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Mynegodd y cyfranogwyr bryderon am leoliadau aml-weithgaredd anghofrestredig, yn enwedig y rhai a gaiff eu rhedeg gan ganolfannau hamdden ac awdurdodau lleol. Cynigiodd cyfranogwyr y dylid mynd â'r newidiadau gam ymhellach ac mai dim ond un is-weithgaredd y dylai fod hawl gan ddarparwyr ei gynnig cyn ei bod yn ofynnol iddynt gofrestru, e.e. un math o chwaraeon, fel pêl-droed. Er yr ystyriwyd ar y cyfan fod darpariaethau ag un gweithgaredd yn dderbyniol heb gofrestriad, teimlwyd bod cynnig cymysgedd o weithgareddau o fewn y math o weithgaredd neu ar draws dau fath – yn enwedig dros gyfnodau hwy – yn gyfystyr â gofal plant ac y dylai'r darparwyr hyn orfod cofrestru. Nododd cyfranogwyr y gallai fod bylchau a fyddai'n galluogi darparwyr i ‘ailfrandio’ fel clybiau un gweithgaredd, gan barhau i gynnig rhaglenni amrywiol.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Mynegodd y cyfranogwyr bryderon ynglŷn ag ymarferoldeb a goblygiadau'r cynnig. Yn gyffredinol, roedd y cyfranogwyr yn cytuno er bod diogelu a goruchwyliaeth yn bwysig, rhaid geirio'r polisi yn ofalus er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol i ddarparwyr cymunedol, diwylliannol ac yn seiliedig ar ffydd sy'n defnyddio cymysgedd o weithgareddau i ymgysylltu â phobl ifanc a'u cefnogi.

Nododd un cyfranogwr fod llawer o ysgolion Sul a chlybiau gwyliau yn naturiol yn cyfuno addysg grefyddol â gemau, celf a chwaraeon, gan ei gwneud hi'n anodd cyfyngu'r ddarpariaeth i un gweithgaredd. Roeddent yn teimlo y gallai gorfodi darparwyr i gofrestru mewn achosion o'r fath gael canlyniadau sylweddol i raglenni cymunedol.

Nododd cyfranogwr arall fod gweithgareddau fel chwaraeon, celf ac addysg ddiwylliannol yn cael eu cyfuno'n aml mewn rhai sefydliadau cyfrwng Cymraeg er mwyn hyrwyddo iaith a hunaniaeth. Cwestiynodd pa mor eang fyddai'r dehongliad o dermau fel “coetsio”, “dysgu”, a “diwylliant”, gan awgrymu y gallai diffiniadau sy'n rhy gaeth eithrio neu gosbi rhaglenni aml-weithgaredd gwerthfawr yn anfwriadol.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Nid oedd y cyfranogwyr yn credu bod nifer y gweithgareddau yn bwysig ac roeddent yn canolbwyntio mwy ar hyd y gofal ac oedran y plant. Cydnabu rhai y byddai gweithgareddau gwahanol yn addas i blant nad ydynt yn gallu canolbwyntio gyhyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod cefnogaeth o blaid y cynnig hwn, cododd sylwadau a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad bryderon ynglŷn â'r effeithiau negyddol ar blant, teuluoedd a chymunedau, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac i grwpiau cyfrwng Cymraeg, cymunedol a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod effeithiau negyddol y cynnig hwn yn gorbwyso manteision gwneud y newid hwn. Felly ni fydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r cynnig i'w gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn mwy nag un math o weithgaredd.

Mae hyn yn golygu cadw'r *status quo* presennol fel na fydd angen i ddarparwyr gofrestru fel darparwr gofal dydd os ydynt yn cynnig darpariaeth coetsio a dysgu mewn dim mwy na dau fath o weithgaredd o'r rhestr benodedig.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r eithriad hwn drwy ganllawiau a chaiff effaith hynny ei monitro a'i hadolygu.

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, os yw plant 2 oed neu'n iau yn mynychu ysgol fel disgyblion, y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r rhan o'r ysgol sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 86.8% | 79 |
| **Anghytuno** | 5.5% | 5 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 5.5% | 5 |
| **Ddim yn gwybod** | 2.2% | 2 |
| | | **91** |

Roedd y **rhan fwyaf** o'r ymatebwyr (86.8%) yn **cytuno** os yw plant 2 oed neu'n iau yn mynychu ysgol fel disgyblion, y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r rhan o'r ysgol sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cyflwynwyd 41 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Nododd llawer o ymatebwyr fod gan blant o'r oedran hwn anghenion datblygiadol a gofal penodol (21) a nododd llawer o'r ymatebwyr hyn fod gan blant o'r oedran hwn anghenion gofal yn hytrach nag anghenion addysgol.
- Roedd rhai o'r farn y dylai fod yn ofynnol i ysgolion fodloni'r safonau gofal rheoliadol os oes plant o'r oedran hwn yn eu mynychu fel disgyblion (8). Gwnaed nifer bach o bwyntiau pellach mewn perthynas â'r angen am gymarebau (4) a bod angen cymwysterau gofal ar staff (3)
- Roedd nifer bach yn teimlo y bydd disgwyliadau cyfartal o ran gofal plant 2 oed neu'n iau yn helpu i gefnogi llesiant plant (3)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn mynegi pryder neu risg yn cynnwys y canlynol:

- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod angen ystyried ymhellach y ffordd y gallai'r cynnig effeithio ar rieni sy'n addysgu eu plant gartref ac sy'n defnyddio amrywiaeth o ddarparwyr preifat, dysgu ac elusennol i addysgu eu plentyn (1)

- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod angen diffiniad cliriach o ofal sy'n rhan achlysurol o addysg (1)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr yn teimlo bod angen ystyried unrhyw effaith ar ysgolion sy'n cynnig gofal cofleidiol a chynnydd yn llwyth gwaith ysgolion ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) (1)

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig os yw plant 2 oed neu'n iau yn mynychu ysgol fel disgyblion, y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r rhan o'r ysgol sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno, os yw gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, na ddylent allu manteisio ar yr eithriadau i weithredu eu darpariaeth am 2 awr neu lai y diwrnod am gyfnod yr ataliad?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 90.4% | 85 |
| **Anghytuno** | 4.3% | 4 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 3.2% | 3 |
| **Ddim yn gwybod** | 2.1% | 2 |
| | | **94** |

Roedd y **rhan fwyaf** o'r ymatebwyr (90.4%) yn **cytuno** os yw gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, na ddylai allu manteisio ar yr eithriadau i weithredu ei ddarpariaeth am 2 awr neu lai y diwrnod am gyfnod yr ataliad dros dro

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cyflwynwyd 42 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y bydd y newid hwn yn hyrwyddo mesurau diogelu cryfach i blant (15)
- Nododd rhai ymatebwyr y bydd y darparwr wedi cael ei atal dros dro ac yr ystyrir ei fod yn anaddas i ofalu am reswm (5), ac roedd rhai yn teimlo bod caniatáu i ddarparwr weithredu yn ystod ataliad dros dro yn tanseilio prosesau gorfodi (4)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn mynegi pryder neu risg yn cynnwys y canlynol:

- Nododd rhai ymatebwyr bwysigrwydd a/neu heriau monitro a gorfodi hyn (5)
- Mynegodd nifer bach bryderon ynglŷn â gofal anrheoleiddiedig yn dilyn ataliad dros dro, gan godi'r mater y gallai darparwr barhau i gynnig darpariaeth anheoleiddiedig gan fod darpariaeth anheoleiddiedig yn parhau i fod yn anheoleiddiedig ac felly ni chaiff monitro fel mater o drefn (2)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y goblygiadau o ran cost i gyflogeion a allai golli incwm ac anghyfleustra i rieni sy'n gorfod dod o hyd i wasanaeth gofal plant amgen (1)
- Cynigiodd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylid ystyried a ddylai hyn hefyd fod yn gymwys i'r rhai a gaiff eu hatal dros dro yn wirfoddol (1), gyda'r farn ei bod yn dibynnu ar y rheswm dros atal - y dylai gwasanaethau allu gweithredu os nad oes risg i'r plant (1)
- Argymhellodd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylid ehangu'r mathau o ataliad dros dro er mwyn cynnwys ataliad dros dro gan reoleiddwyr proffesiynol eraill, e.e. Cyngor y Gweithlu Addysg (1)

### Ymateb Llywodraeth Cymru

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig os yw gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd cofrestredig yn cael ei atal dros dro yn sgil gorfodi gweithdrefnau, na ddylai allu manteisio ar yr eithriadau i weithredu ei ddarpariaeth am 2 awr neu lai y diwrnod am gyfnod yr ataliad dros dro, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr sy'n cynnig gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed neu'n iau, lle nad yw'r rhiant yn bresennol, gofrestru gydag AGC, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai y diwrnod neu 5 diwrnod neu lai y flwyddyn?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 79.8% | 75 |
| **Anghytuno** | 8.5% | 8 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 8.5% | 8 |
| **Ddim yn gwybod** | 3.2% | 3 |
| | | **94** |

Roedd y **rhan fwyaf** o'r ymatebwyr (79.8%) yn **cytuno** y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr sy'n cynnig gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed neu'n iau, lle nad yw'r rhiant yn bresennol, gofrestru ag AGC, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai y diwrnod neu 5 diwrnod neu lai y flwyddyn.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cafwyd 44 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Mynegodd llawer y farn fod plant 2 oed neu'n iau yn agored i niwed a bod ganddynt anghenion gofal sylweddol (2). Awgryma ymatebwyr y gall lleoliadau cofrestredig ddiwallu'r anghenion hyn drwy e.e. cymarebau oedolion i blant llym, staff cymwysedig, mesurau diogelu cadarn
- Roedd llawer o'r farn bod cofrestru yn amddiffyn ac yn diogelu (18)
- Roedd rhai yn teimlo bod plant o'r oedran hwn yn rhy ifanc i gael sesiynau coetsio a dysgu (7)
- Nododd nifer bach y fantais bosibl y gallai rhagor o deuluoedd gael gafael ar ofal plant a ariennir gan y Llywodraeth a chymorth ariannol gan y byddai'n ofynnol i fwy o ddarparwyr gofrestru yn sgil y cynnig (3)
- Roedd nifer bach yn teimlo y bydd y newid hwn yn ei gwneud yn haws i rieni wahaniaethu rhwng darpariaeth gofrestredig ac anghofrestredig (4)
- Roedd nifer bach o'r farn bod y manteision i blant a theuluoedd yn gorbwyso'r risgiau, e.e. gwasanaethau yn cau (3)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai yn credu y dylid pennu trothwy uwch ar gyfer yr oedran (5) ac roedd nifer bach iawn o ymatebwyr o'r farn bod trothwy o 2 oed yn fympwyol (1)
- Nododd nifer bach y risg y gallai darpariaethau cymunedol gau os nad ydynt am ymdrin â'r baich o gofrestru – roedd yr enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys eglwysi a darpariaeth gymunedol lle darperir crèche (4)
- Roedd nifer bach yn teimlo nad yw'r newid yn ymateb i alwadau a nodwyd yn yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae y dylai pob darpariaeth gael ei chofrestru neu ei gwirio mewn rhyw ffordd (2)
- Galwodd nifer bach ar Lywodraeth Cymru i ystyried sut y caiff risgiau eu lliniaru i sicrhau nad yw anghydraddoldebau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau yn gwaethygu (2)
- Nododd nifer bach fod angen canllawiau ymarfer clir i gefnogi dealltwriaeth o'r eithriad (2)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y posibilrwydd y bydd mwy o bwysau ar AGC os bydd y gofyniad i gofrestru yn berthnasol i fwy o ddarparwyr (1)
- Nododd nifer bach iawn fod diffyg sylfaen dystiolaeth ar gyfer y farn bod lleoliadau cofrestredig yn fwy diogel na rhai anghofrestredig – gwneud penderfyniad yn seiliedig ar ganfyddiad (1)
- Nododd nifer bach iawn fod y newid yn cael gwared ar y cyfle i ddarparwyr brofi'r farchnad cyn cofrestru darpariaeth newydd (1)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Roedd y cyfranogwyr yn cytuno'n gryf â'r cynnig. Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr o'r farn bod cofrestru yn hanfodol ar gyfer diogelu, tegwch a phroffesiynoldeb. Diogelu, tegwch a phroffesiynoldeb oedd y prif bryderon. Roedd hyn oherwydd natur agored i niwed plant ifanc iawn a risgiau mewn lleoliadau anrheoleiddiedig (e.e. grwpiau mewn eglwysi, crèche canolfannau hamdden). Ystyriwyd bod gofal anghofrestredig yn tanseilio safonau proffesiynol ac yn creu cystadleuaeth annheg i ddarparwyr cofrestredig sy'n bodloni gofynion trylwyr. Awgrymodd rhai y dylid codi'r trothwy oedran i dan 4 oed, gan gyfeirio at wahaniaethau datblygiadol o ran gallu cyfathrebu plant a'u hanghenion gofal.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Roedd rhywfaint o gefnogaeth o blaid egwyddor cofrestru. Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynglŷn â chanlyniadau anfwriadol i leoliadau anffurfiol neu gymunedol hefyd. Nododd un cyfranogwr ei fod yn cytuno â'r cynnig. Nododd un cyfranogwr yr effaith bosibl ar crèches mewn eglwysi, lle mae rhieni gerllaw ond nid yn yr ystafell,

gan nodi er bod y lleoliadau hyn yn dilyn gweithdrefnau diogelu, gallai'r gofyniad gorfodol i gofrestru arwain at gau lleoliadau.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn cytuno'n gryf y dylai fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n gofalu am blant 2 oed neu'n iau gofrestru os nad yw'r rhiant yn bresennol, ni waeth pa mor fyr neu anaml yw'r sesiynau. Roeddent yn teimlo bod gan blant bach iawn fwy o anghenion gofal a bod cofrestru yn rhoi tawelwch meddwl i rieni.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig y dylai fod yn ofynnol i bob darparwr sy'n cynnig gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed neu'n iau, lle nad yw'r rhiant yn bresennol, gofrestru ag AGC, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai y diwrnod neu 5 diwrnod neu lai y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 5, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu plant 2 oed neu'n iau o'r eithriad ar gyfer coetsio a dysgu. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed neu'n iau, lle bydd rhiant yn aros ar y safle (ond heb fod yn bresennol yn y sesiwn) gofrestru, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai y diwrnod neu 5 diwrnod neu lai y flwyddyn?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 44.1% | 41 |
| **Anghytuno** | 40.9% | 38 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 11.8% | 11 |
| **Ddim yn gwybod** | 3.2% | 3 |
| | | **93** |

Roedd **lleiafrif** o'r ymatebwyr (44.1%) yn **cytuno** na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed neu'n iau, lle bydd rhiant yn aros ar y safle (ond heb fod yn

bresennol yn y sesiwn) gofrestru, hyd yn oed os yw'r gofal am 2 awr neu lai y diwrnod neu 5 diwrnod neu lai y flwyddyn.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Cafwyd 39 o sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn.

Mae'n werth nodi bod ymatebion rhai (3) o'r ymatebwyr yn awgrymu eu bod ar ddeall bod y cynnig yn ymwneud ag achosion pan fydd rhieni yn bresennol gyda'u plentyn a'u bod felly'n teimlo mai'r rhiant sy'n gyfrifol a bod llai o risg.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau cefnogol yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn golygu y gallai darpariaeth gymunedol barhau i weithredu os bydd rhieni yn ymgymryd â hyfforddiant, cymorth neu weithgareddau cymunedol neu sy'n seiliedig ar ffydd, tra bydd eu plant yn cael gofal mewn rhan arall o'r adeilad. (8)
- Nododd nifer bach iawn pe bai rhieni ar y safle, gallent ymateb i anghenion eu plentyn ar unwaith (4)
- Roedd nifer bach o'r farn y byddai'r cynnig hwn yn galluogi rhieni i arfer dewis y rhiant a phenderfynu a yw'r ddarpariaeth yn addas i ofalu am eu plentyn (3)
- Roedd nifer bach yn teimlo bod y cynnig yn gymesur ac yn cydbwyso'r risgiau a'r manteision (3)
- Roedd nifer bach yn teimlo bod y newid yn osgoi baich gweinyddol ac ariannol diangen a all beri i ddarparwyr roi'r gorau i weithredu (2)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod y risg o ran diogelu yn is pan fydd y rhieni yn aros ar y safle, ac felly ni fyddai gofyniad gorfodol i gofrestru yn gymesur (1)

Roedd y themâu allweddol ymhlith y sylwadau a oedd yn amlinellu risgiau a phryderon yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai o'r farn y dylid cofrestru pob darpariaeth ar gyfer plant dan 4 oed os nad yw'r rhiant gyda'r plentyn er mwyn diwallu ei anghenion (13)
- Roedd rhai yn teimlo os nad yw'r rhieni yn yr un ystafell, yna ni allant fonitro lefel y gofal ac amddiffyn neu ddiogelu eu plentyn, felly mae lefel y risg yr un peth (8)
- Roedd rhai o'r farn y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr fodloni arferion gorau, e.e. disgwyliadau mewn perthynas â diogelu a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (6)
- Nododd rhai ymatebwyr (6) fod angen canllawiau cliriach er mwyn sicrhau bod darparwyr a rhieni yn deall eu cyfrifoldebau yn llawn, yn enwedig mewn perthynas â'r hyn sy'n gyfystyr â chyfrifoldeb y rhiant a'r ‘safle’.

- Roedd nifer bach yn teimlo na ddylai'r eithriad fod yn gymwys i goetsio a dysgu gan nad yw plant o'r oedran hwn yn gallu ymgysylltu â sesiynau o'r fath (4)
- Nododd nifer bach fod angen canllawiau clir i helpu darparwyr a rhieni ddeall eu cyfrifoldebau, diffinio beth yw safle ac argaeledd rhieni (3)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y gellir dehongli'r ymadrodd 'ar y safle' mewn ffyrdd gwahanol (3)
- Nododd nifer bach y gallai fod yn anodd monitro pe bai'r rhieni yn aros ar y safle (2)
- Roedd nifer bach o'r farn nad yw rhai rhieni yn deall y gwahaniaeth rhwng darpariaeth gofrestredig ac anghofrestredig, gan arwain at ddryswch ac ymddiriedaeth a roddwyd ar gam (2)
- Roedd nifer bach iawn yn teimlo y dylai'r ffocws fod ar ddiogelwch a lles y plant yn hytrach na'r hyn sydd fwyaf cyfleus i'r rhieni (1)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Roedd y cyfranogwyr a fynegodd eu barn am y mater hwn yn anghytuno â'r cynnig. Gwnaethant nodi nad yw'r ffaith bod rhieni'n bresennol ar y safle, ond nid yn yr ystafell, yn lliniaru risgiau diogelu i blant 2 oed neu'n iau yn ddigonol. Gwnaethant bwysleisio bod angen cofrestru mewn achosion i'r fath er mwyn sicrhau safonau, hyfforddiant ac atebolrwydd priodol. Ni allent weld sut y byddai'r ffaith bod y rhieni yn aros ar y safle yn newid y gofal a ddarperir i'r plentyn neu'r risgiau posibl.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Rhannodd rhai cyfranogwyr eu barn am y mater hwn gan nodi eu bod yn cytuno â'r cynnig. Roeddent yn teimlo bod presenoldeb y rhieni ar y safle yn cynnig mesur diogelu digonol, ac y gallai gorfodi darparwyr i gofrestru yn yr achosion hyn gyfyngu ar fynediad at wasanaethau cymorth gwerthfawr yn anfwriadol. Nododd nifer bach iawn fod trefniadau o'r fath yn gyffredin mewn grwpiau babanod a chyrsiau rhianta a gaiff eu harwain gan awdurdodau lleol, ac y gallai'r gofyniad i gofrestru leihau argaeledd y gwasanaethau cymorth hyn yn sylweddol. Gwnaethant hefyd bwysleisio pa mor bwysig yw'r hyblygrwydd hwn i gymunedau megis ceiswyr lloches a ffoaduriaid, lle mae mynediad at ofal plant ffurfiol yn gyfyngedig ac mae'r gallu i gymryd rhan mewn rhaglenni addysgol fel Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill yn dibynnu ar y math hwn o ofal plant.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Nododd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr y dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru o hyd os nad yw'r rhieni yn yr un ystafell â'u plentyn, hyd yn oed os ydynt yn rhywle arall ar y safle. Roeddent o'r farn nad yw bod gerllaw yn gwarantu diogelwch, yn enwedig i blant 2 oed neu'n iau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

O ystyried y gefnogaeth o blaid y cynnig na ddylai fod yn ofynnol i ddarparwyr sy'n cynnig gwarchod plant, gofal dydd neu weithgareddau coetsio a dysgu i blant 2 oed neu'n iau, lle bydd rhiant yn aros ar y safle (ond heb fod yn bresennol yn y sesiwn) gofrestru, pan fydd y gofal am 2 awr neu lai y diwrnod neu 5 diwrnod neu lai y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cynnwys y ddarpariaeth hon yng Ngorchymyn arfaethedig 2026. Fel y nodwyd yn yr ymateb i gwestiwn 5, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu tynnu plant 2 oed neu'n iau o'r eithriad ar gyfer coetsio a dysgu. At hynny, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y cynnig hwn yn lliniaru'r pryderon a godwyd gan ymatebwyr yng nghwestiynau 10 ac 11 mewn perthynas â gweithgareddau megis crèches mewn eglwysi, lle mae rhieni gerllaw ond nid yn yr ystafell. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau i gefnogi dealltwriaeth o Orchymyn 2026 a'r broses o'i gymhwyso.

**Cwestiwn 12:** Hoffech chi wneud unrhyw sylw pellach ar gynnwys Gorchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026?

Gwnaeth cyfanswm o 50 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Cafwyd amrywiaeth eang o adborth manwl gan ymatebwyr, a oedd yn cynnig gwybodaeth werthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth gefnogi'r broses o roi'r rheoliadau ar waith. Caiff gwybodaeth allweddol o'r sylwadau a gyflwynwyd ei chrynhoi isod yn ôl thema:

**Diogelu a goruchwyliaeth**

- Nododd llawer o ymatebwyr y byddai'n well ganddynt pe bai gweithgareddau o bob math yn cael eu rheoleiddio er mwyn diogelu plant (13)
- Cyfeiriodd nifer bach at bryderon ynglŷn â safonau darpariaeth anghofrestredig (5)
- Nododd nifer bach y byddai'n well ganddynt gynllun cymeradwyo gorfodol (2)
- Awgrymodd nifer bach iawn fod angen i ddarpariaeth nad yw'n cael ei rheoleiddio fod yn ddarostyngedig i ofynion diogelu gorfodol cadarn (1), gydag un yn nodi y dylai pob person y tu allan i deulu sy'n gofalu am blant gael ei gofrestru (1)
- Galwodd nifer bach iawn o ymatebwyr am drefniadau cofrestru a monitro ar gyfer darparwyr megis clybiau a gwarchodwyr babanod, ond gwnaethant godi pryderon ynglŷn â chapasiti AGC i weinyddu cofrestriad llawn ar eu cyfer (1)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynigion yn hyrwyddo mesurau diogelu (2)

- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr ei bod ymddangos bod y Gorchymyn drafft yn seiliedig ar ddyhead i ehangu'r gofyniad i gofrestru yn hytrach na thystiolaeth niwed neu risg mewn perthynas â'r trefniadau presennol (1)

**Eglurder**

- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd diffiniadau clir (8) a nododd nifer bach bwysigrwydd canllawiau clir a hygyrch i ddarparwyr (3)
- Roedd rhai yn bryderus y gallai fod risg o 'fylchau' (7), a galwodd nifer bach o ymatebwyr am wybodaeth glir a hygyrch i rieni i'w helpu i ddeall beth yw gofal cofrestredig ac anghofrestredig (3)
- Mynegodd nifer bach o ymatebwyr gefnogaeth gref o blaid yr adolygiad o'r Gorchymyn Eithriadau, gyda nifer bach iawn yn cyfeirio at adroddiadau allweddol sy'n sail i'r argymhellion. Nodwyd ei fod yn tynnu sylw at werth yr ymgynghoriad cyfredol o ran egluro'r rheoliadau a gwella mesurau diogelu plant (4)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr o'r farn bod hyn yn cynnig eglurder (1), ond galwodd ymatebydd arall am eglurder i sicrhau bod gweithgareddau diwylliannol ac sy'n seiliedig ar ffydd yn hygyrch ac yn fforddiadwy o hyd (1)

**Cydbwyso anghenion croes**

- Nododd rhai ymatebwyr fod angen cael y cydbwysedd cywir rhwng diogelu plant a sicrhau bod darpariaeth hygyrch i deuluoedd (6)
- Nododd nifer bach ei bod yn debygol y bydd darpariaethau cymunedol a arweinir gan wirfoddolwyr yn cau yn sgil y cynnydd posibl yn y baich rheoleiddiol a/neu ariannol arnynt, gan arwain at lai o gyfleoedd i blant, a nodwyd y bydd hyn yn cael effaith anghymesur ar ddarpariaethau cyfrwng Cymraeg a rhai sy'n seiliedig ar ffydd. (3)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr fod gan leoliadau anghofrestredig gostau is, sydd felly'n creu sector â dwy haen lle mae darparwyr cofrestredig yn ei chael hi'n anodd cystadlu (1)

**Ystyriaethau sy'n benodol i'r sector**

- Nododd nifer bach o ymatebwyr y gellir dehongli eithriadau mewn perthynas â choetsio a dysgu mewn ffyrdd eang – gan nodi nas ymdriniwyd â phryderon y sector gwaith chwarae (2)
- Awgrymodd nifer bach iawn o ymatebwyr na ddylai fod yn ofynnol i ysgolion sy'n cynnig darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol gofrestru na bod yn destun cyfyngiad amser (1)
- Galwodd nifer bach iawn o ymatebwyr ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu gwaith ymchwil i b'un a yw lleoliadau cofrestredig yn fwy diogel na rhai anghofrestredig, cynnal dadansoddiad cost a budd llawn o'r newidiadau arfaethedig, gan gynnwys

capasiti gwirfoddol, ystyried dulliau amgen i gryfhau mesurau diogelu a sicrhau bod ymyriadau rheoleiddiol yn gymesur â'r risgiau a nodir (1)
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr na chaiff materion o ran lleoliad mewn gweithgareddau chwarae a gwyliau eu crybwyll yn yr ymgynghoriad (1)
- Galwodd nifer bach iawn o ymatebwyr am eithriad ar gyfer sefydliadau ieuenctid (1)

**Sylwadau cyffredinol**

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr ymgynghoriad yn gymhleth iawn ac yn anodd ei ddeall (6)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr fod angen ystyried hyn ochr yn ochr â chanlyniadau'r ymgynghoriad ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol; a datblygiad y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn (2)
- Galwodd nifer bach o ymatebwyr am sicrwydd bod unrhyw effeithiau sy'n deillio o'r Gorchymyn, gan gynnwys goblygiadau o ran cost, yn cael eu monitro (1)

Mae'n werth nodi bod rhai sylwadau yn awgrymu bod ychydig o ymatebwyr o'r farn bod y gofynion o ran eithriadau yn cael eu llacio yn hytrach na'u cryfhau.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gwnaed nifer o sylwadau eraill y mae Llywodraeth Cymru wedi'u hystyried wrth lunio fersiwn derfynol Gorchymyn drafft 2026.

## Crynodeb o'r ymatebion – Rhan B: Datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol Arfaethedig

Mae'r adran ganlynol yn nodi manylion yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â datblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig.

**Cwestiwn 13:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Cytuno | Anghytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Ddim yn gwybod | Ymatebion |
|---|---|---|---|---|---|
| Caniatáu i deuluoedd gael mynediad at Ofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol i dalu am ystod ehangach o wasanaethau, lle mae'r teulu a'r darparwr yn gymwys | 63.8% (60) | 26.6% (25) | 9.6% (9) | 0% (0) | 94 |
| Gwirio bod y darparwr wedi bodloni meini prawf cymeradwyo penodol, gan gynnwys gwiriadau diogelwch sylfaenol, a allai gynnig rhywfaint o sicrwydd i rieni am eu dewis ddarparwr | 77.4% (72) | 18.3% (17) | 4.3% (4) | 0% (0) | 93 |
| Helpu i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r sector anghofrestredig sy'n cofrestru o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, a darparu cymorth a gwybodaeth iddynt | 76.9% (70) | 17.6% (16) | 5.5% (5) | 0% (0) | 91 |
| | | | | | **94** |

Roedd y **mwyafrif** o'r ymatebwyr (63.8%) yn **cytuno** â nod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaed cyfanswm o 46 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol ymhlith yr ymatebion yn cynnwys y canlynol:

- Dywedodd llawer o ymatebwyr fod y cynllun yn cynnig y cyfle i deuluoedd ddefnyddio cymorth ariannol i dalu am ofal plant, gwaith chwarae a gweithgareddau a nododd rhai y gallai hyn wella mynediad a hyblygrwydd (14)
- Roedd llawer o'r farn bod y cynllun yn cynnig meini prawf sylfaenol gyda mesurau diogelu, safonau, sicrwydd neu gysondeb gwell ar gyfer darpariaeth anghofrestredig (13)
- Nododd rhai y gallai'r cynllun fod o gymorth i ddarparwyr anghofrestredig drwy gynnig cymorth, dulliau monitro, rhagor o wybodaeth a goruchwyliaeth mewn perthynas â darpariaeth (9) a nododd un ymatebydd y gellid ei ystyried fel 'cam' tuag at gofrestru (1)
- Roedd llawer o'r farn na fyddai'r cynllun arfaethedig yn ddigon cadarn i sicrhau safonau diogelu neu na fyddai'n ddull effeithiol o gefnogi camau i wella ansawdd a bod angen rhoi mwy o bwyslais ar y ffactorau hyn (13)
- Tynnodd rhai sylw at yr effaith negyddol bosibl y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ei chael ar y sector cofrestredig (10), er enghraifft drwy wneud elfennau o gystadleuaeth annheg yn waeth drwy ganiatáu i ddarparwyr anghofrestredig gynnig manteision ariannol i deuluoedd a'r posibilrwydd y byddai darpariaeth gofrestredig yn datgofrestru ac yn gweithredu o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gan y byddai'n cael gwared ar unrhyw gymhelliant i gofrestru o bosibl
- Roedd rhai o'r farn y byddai'r cynllun yn creu cymhlethdodau yng nghyd-destun darpariaethau cofrestredig/anghofrestredig a allai fod yn anodd eu deall ac o bosibl yn rhoi ymdeimlad ffug o sicrwydd (8), a nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y byddai angen cyfleu'r gwahaniaeth yn glir (1)
- Nododd rhai ymatebwyr anawsterau posibl o ran gallu un cynllun i fod yn berthnasol ac yn gymesur i ddarparwyr amrywiol a/neu sut y gall y cynllun dderbyn cymwysterau amrywiol (5)
- Roedd nifer bach yn credu y gallai rhai darparwyr ystyried bod y cynllun yn feichus ac nad yw'n ariannol hyfyw (3)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr yn benodol y gallai darpariaethau â lefelau ansawdd a diogelu nad ydynt yn cyrraedd y safon ddewis peidio â chofrestru â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (2)
- Dywedodd nifer bach iawn o ymatebwyr y gallai'r risg o dwyll ddod i'r amlwg o ganlyniad i ddull gweithredu llai manwl (1)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo bod cymhellion ariannol yn cael eu blaenoriaethu dros ddiogelwch plant, drwy ganiatáu i leoliadau anghofrestredig fanteisio ar gyllid gan y llywodraeth heb iddynt orfod bodloni'r un gofynion a chyrraedd yr un safonau â lleoliadau cofrestredig. Roeddent hefyd yn teimlo y byddai hyn yn tanseilio gwerth darparwyr cofrestredig y mae'n ofynnol iddynt gyrraedd safonau llym a mynd drwy arolygiadau, ac y byddai hyn yn niweidio uniondeb y sector.

Cydnabu cyfranogwr fod llawer o ddarparwyr anghofrestredig yn gweithredu'n gyfrifol ac yn dilyn arferion gorau ac, ar gyfer y mathau hynny o ddarpariaethau, gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gefnogi cynaliadwyedd a bod o fudd i rieni, ond roed yn teimlo o hyd mai dim ond i leoliadau cofrestredig y dylai cyllid fod ar gael.

Mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon na fyddai rhieni yn deall y gwahaniaeth rhwng darpariaeth gofrestredig ac anghofrestredig pe bai cyllid ar gael ar gyfer y ddau.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Mynegodd cyfranogwr bryder fod y nod o ddarparu mynediad at gymorth ariannol yn cymylu'r llinellau o ran beth yw ‘gofal’. Roedd cyfranogwr arall o'r farn y byddai cynyddu nifer y darparwyr y gall teuluoedd ddefnyddio cymorth ariannol ar eu cyfer yn fuddiol fel bod mwy o ddarpariaethau ar gael i deuluoedd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod cefnogaeth gyffredinol o blaid nodau arfaethedig y cynnig i ddatblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yng Nghymru ar gyfer darparwyr gofal plant, chwarae a gweithgareddau, mae'r ymatebion yn awgrymu bod angen cryfhau'r nodau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu cwmpas a chyfyngiadau'r cynllun yn gywir er mwyn rheoli disgwyliadau. Mae Llywodraeth Cymru wedi myfyrio ar y sylwadau hyn ac yn cynnig diwygio nodau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig er mwyn ystyried yr adborth hwn.

**Cwestiwn 14:** Yn eich barn chi, pa rai o'r meini prawf cymeradwyo a amlinellir uchod ddylai fod yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
|---|---|---|
| Bod yn 18 oed neu'n hŷn | 88.9% | 80 |
| Bod wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig brys | 87.8% | 79 |
| Bod wedi cwblhau cwrs diogelwch canolradd o fanyleb Grŵp B/ lefel 2 o leiaf | 96.7% | 87 |
| Bod wedi cwblhau cwrs Hanfodion Gofal Plant ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau | 75.6% | 68 |
| Bod wedi cael gwiriad DBS manylach sy'n gyfredol | 97.8% | 88 |
| Peidio â bod wedi'i wahardd rhag gweithgarwch rheoleiddiedig gyda phlant na bod yn anaddas i weithio gyda phlant neu i ddod i gysylltiad â nhw heb oruchwyliaeth | 95.6% | 86 |
| Bod ag yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu marwolaeth, anaf, difrod neu golled arall | 93.3% | 84 |
| Bydd gofyn i'r ymgeisydd wneud hunan-ddatganiad, (na ymchwilir iddo na'i wirio gan Arolygiaeth Gofal Cymru), ei fod yn deall ac yn defnyddio arfer gorau ar ran y ddarpariaeth mewn perthynas â:<br>• 'Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu pobl: cod ymarfer diogelu', gan gynnwys arferion recriwtio diogel, gweithdrefnau cwynion ac asesu risg.<br>• Os yw'n gweini neu'n trin bwyd, hylendid bwyd.<br>• Staffio, safleoedd, cadw cofnodion, diogelwch plant, iechyd a lles. | 75.6% | 68 |
| | | **90** |

Roedd y **rhan fwyaf** o'r ymatebwyr yn **cytuno** â phob un o elfennau'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Yr amrediad cytuno oedd 75.6 - 96.7% ar draws y meini prawf cymeradwyo.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaed cyfanswm o 48 o sylwadau mewn ymateb i gwestiwn 14.

Cafwyd amrywiaeth eang o adborth manwl gan ymatebwyr, a oedd yn cynnig gwybodaeth werthfawr, a gwnaeth rhai awgrymiadau o ran meini prawf pellach y dylid eu cynnwys ar gyfer y cynllun. Caiff yr ymatebion hyn eu crynhoi yn yr adran nesaf ar gwestiwn 15.

Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Mynegodd llawer o ymatebwyr bryderon ynglŷn â'r ffaith bod elfennau o'r meini prawf yn gofyn am hunan-ddatganiad, y gellid ei ystyried fel sicrwydd ffug oni bai bod dealltwriaeth iawn o hyn (12). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylai hyn gael ei amlinellu'n glir fel bod rhieni yn deall y trefniadau goruchwylio 'gwan' (1)
- Mynegodd llawer bryderon am y ffaith y byddai'r meini prawf cymeradwyo yn cael eu cymhwyso i'r ymgeisydd yn unig, a chafwyd ymholiadau a sylwadau ynglŷn â ph'un a fyddai'r meini prawf cymeradwyo yn gymwys i staff eraill sy'n gweithio yn y ddarpariaeth (12)
- Gwnaeth llawer o ymatebwyr ymholiadau ynglŷn â pherthnasedd a/neu gymesuredd y meini prawf i fathau amrywiol o ddarparwyr, gyda rhai'n awgrymu y gallai hyfforddiant arall fod yn fwy addas i rai darparwyr (10), megis nanis neu hyfforddwyr/tiwtoriaid. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried hyfforddiant a chymwysterau cyfatebol. Awgrymwyd hefyd y gallai'r broses o geisio cymeradwyaeth fod yn feichus i ddarpariaethau llai o faint neu a arweinir gan wirfoddolwyr, ac y dylid cefnogi'r darparwyr hyn (1)
- Roedd rhai ymatebwyr yn cytuno bod y meini prawf yn bwysig er mwyn darparu llinell sylfaen dda a rhai nodweddion craidd (8)
- Roedd rhai yn teimlo bod y lefelau posibl a nodwyd yn y meini prawf yn rhy sylfaenol ac awgrymwyd, er enghraifft, fod angen rhoi disgwyliadau mwy datblygedig ar waith o ran cymorth cyntaf a diogelu (5)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn nad oedd y cynllun yn briodol, gan deimlo y dylai pob darparwr fod wedi'i gofrestru neu y dylai'r cynllun fod yn orfodol (3). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylai'r cynllun gael ei fonitro a'i orfodi (1)
- Nododd nifer bach yr effaith negyddol bosibl y bydd datblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ei chael ar ddarparwyr cofrestredig (3)
- Cwestiynodd nifer bach o ymatebwyr rolau'r awdurdodau lleol o ran cefnogi'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (3)
- Roedd nifer bach yn teimlo y gall holl elfennau'r meini prawf hyn fod ar waith gan ddarparwyr anghofrestredig beth bynnag (2). Gwnaeth rhai ymatebwyr awgrymiadau i gryfhau'r meini prawf am eu bod yn teimlo nad ydynt yn ddigon cadarn. Er enghraifft, drwy ychwanegu'r angen i ymaelodi â chorff proffesiynol

(1). Gwnaeth nifer bach iawn o ymatebwyr awgrymiadau i lacio'r meini prawf drwy eu lleihau i'r cwrs Hanfodion Gofal Plant a gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unig (1) neu leihau'r oedran i 16 oed (1)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynglŷn ag effaith y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar ddiogelu a safonau'r sector. Roeddent yn teimlo nad oedd y gofynion o ran staffio, diogelu a hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddigonol. Roeddent hefyd yn teimlo bod gormod o ddibyniaeth ar hunan-ddatgan. Galwodd cyfranogwyr am atebolrwydd cliriach, mesurau diogelu cryfach ac i'r cynllun gael ei ailwerthuso er mwyn sicrhau nad yw'n cyfaddawdu ansawdd na diogelwch.

Nid oedd cyfranogwyr yn teimlo bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn deg gan mai dim ond tystiolaeth o 10 pwynt y byddai ei hangen ar ddarparwyr i ymuno, sy'n llawer llai na'r hyn sydd ei angen ar gyfer cofrestriad llawn. O ganlyniad i hyn, cwestiynodd darparwyr pam mae gan ddarparwyr cofrestredig gynifer o ofynion os gellir cwtogi'r elfennau craidd i 10 nodwedd.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Yn gyffredinol, roedd cefnogaeth o blaid Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol mewn egwyddor, gyda'r farn y gallai helpu i ddangos ansawdd a meithrin ymddiriedaeth â rhieni.

Fodd bynnag, pwysleisiodd cyfranogwyr bwysigrwydd canllawiau clir, hyblygrwydd o ran cydnabod cymwysterau perthnasol, ac ystyried yr heriau ymarferol a wynebir gan wahanol fathau o ddarparwyr. Nododd cyfranogwyr y gall fod rhwystrau iddynt o ran ymarferoldeb bodloni'r gofynion ar gyfer cymeradwyaeth wirfoddol, yn enwedig i sefydliadau sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr, a hynny o ran costau a logisteg. Gwnaethant nodi y gallai fod yn anodd ymdopi â baich ychwanegol hyfforddiant ychwanegol a disgwyliadau o ran diogelu ochr yn ochr â'u cyfrifoldebau presennol.

Holwyd sut y byddai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cael ei gymhwyso i nanis a oedd eisoes ar y cynllun nanis ac wedi bodloni'r gofynion sylfaenol hynny. Roedd rhai darparwyr anghofrestredig yn teimlo bod eu hyfforddiant a'u cymwysterau yn fwy perthnasol i'w darpariaeth na'r cwrs Hanfodion Gofal Plant ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau, a allai fod yn llai gwerthfawr i'w darpariaeth yn eu barn nhw.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Er bod cefnogaeth gyffredinol o blaid y meini prawf arfaethedig a fyddai'n ofynnol i ymuno â Chynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gwnaed awgrymiadau i gryfhau'r meini

prawf ac ystyried pwy sydd angen dangos y gofynion hyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi myfyrio ar y sylwadau hyn a bydd yn ystyried yr adborth hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a mireinio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ymhellach.

**Cwestiwn 15:** A oes meini prawf eraill y dylid eu cynnwys, yn eich barn chi?

**Ymatebion Ysgrifenedig**

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaeth cyfanswm o 43 o ymatebwyr sylwadau mewn perthynas â'r cwestiwn hwn. Cafwyd amrywiaeth eang o adborth manwl gan ymatebwyr, a oedd yn cynnig gwybodaeth werthfawr a fydd yn ddefnyddiol wrth gefnogi'r broses o roi'r rheoliadau ar waith. Caiff gwybodaeth allweddol o'r sylwadau a gyflwynwyd ei chrynhoi isod:

- Nododd llawer o ymatebwyr fod angen i ddarparwyr feddu ar gymwysterau/hyfforddiant a/neu brofiad sy'n berthnasol i'r ddarpariaeth (11)
- Nododd llawer o ymatebwyr fod angen ystyried ffactorau amgylcheddol (10), gan gynnwys addasrwydd yr adeilad a ffactorau iechyd a diogelwch, ac roedd yr awgrymiadau a wnaed yn cynnwys archwiliadau safle ac yswiriant
- Pwysleisiodd rhai ymatebwyr yr angen i gryfhau'r gofynion diogelu (10), er enghraifft gofyn am bolisi diogelu, cynyddu'r hyfforddiant diogelu o grŵp B i grŵp C, a'r gofyniad i bob aelod o staff/aelod o'r aelwyd feddu ar wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a/neu fod wedi cwblhau hyfforddiant diogelu
- Nododd rhai ymatebwyr yr angen i gynnwys cymhwyster/hyfforddiant datblygiad plant, gwaith chwarae neu ofal plant, neu brofiad o hyn, fel gofyniad (9). Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys hylendid bwyd neu ymwybyddiaeth o alergeddau (5) ac awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid cynnwys gofynion o ran arferion recriwtio/gwirfoddoli diogel (5)
- Gwnaeth rhai ymatebwyr ystod eang o awgrymiadau eraill a oedd yn ymwneud â gofynion gweinyddol (5), gan gynnwys yr angen i ddarparwyr gael polisïau a gweithdrefnau clir (e.e. cwynion, trefniadau i gloi'r safle mewn argyfwng, cydraddoldeb ac amrywiaeth), cofrestru â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, gwaith papur megis cynlluniau busnes a ffurflenni cofrestru. Cwestiynodd rhai rolau'r awdurdodau lleol (3), gyda nifer bach iawn o’r rhain yn awgrymu y dylai darparwyr ganiatáu ymweliadau ganddynt (1)
- Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr gyrsiau hyfforddiant gwahanol, gan gynnwys PREVENT (1), COSHH (1), cydraddoldeb ac amrywiaeth (2), asesu risg (3) ac ADY (2)

- Nododd nifer bach o ymatebwyr y dylai'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data fod yn ofyniad (3)
- Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y gallai cynnwys aelodaeth o sefydliad ambarél fod yn ofyniad (2)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r meini prawf gynnwys cymarebau staff (2)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y dylai'r meini prawf cymhwysedd a hyfforddiant fod yn berthnasol i bob aelod o staff, ac na ddylent fod yn ofynnol ar gyfer yr ymgeisydd yn unig (2)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y dylid ychwanegu gofyniad i hyrwyddo'r Gymraeg. Dywedodd un cyfranogwr y dylai hyfforddiant ar anghenion ychwanegol fod yn ofynnol hefyd.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gwnaed sawl awgrym i amrywiaeth o ofynion gael eu hychwanegu at feini prawf arfaethedig y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi myfyrio ar y sylwadau hyn a bydd yn ystyried yr adborth hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a mireinio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ymhellach.

**Cwestiwn 16:** Yn eich barn chi, pa rai o’r nodweddion uchod y byddai’n gymesur eu cynnwys fel rhan o’r broses o reoli a goruchwylio’r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | Canran Ymateb | Cyfanswm Ymateb |
|---|---|---|
| Byddai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn cael ei reoli gan Arolygiaeth Gofal Cymru. | 82.8% | 72 |
| Cynllun gweinyddol fyddai hwn, sy'n golygu na fydd unrhyw ddyfarniadau ansawdd gan AGC ac na fyddai'n ofynnol i AGC ei arolygu. | 44.8% | 39 |
| Byddai'n ofynnol i'r darparwr cymeradwy adnewyddu ei gofrestriad bob blwyddyn, a byddai ffi flynyddol. | 63.2% | 55 |

| | | |
|---|---|---|
| Byddai manylion y darparwr cymeradwy yn cael eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol. Gallai darparwyr cymeradwy wedyn gael cefnogaeth, gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a chymorth gan yr awdurdod lleol, os dymunant. | 81.6% | 71 |
| Byddai'n ofynnol i'r darparwr cymeradwy roi gwybod i AGC ynghylch euogfarn, rhybudd, neu newid enw, cyfeiriad neu fanylion cyswllt. | 89.7% | 78 |
| Ni fyddai AGC yn delio ag unrhyw gwynion dydd i ddydd ynglŷn â'r darparwr cymeradwy. | 40.2% | 35 |
| Yn achos pryder diogelwch, ni fyddai AGC yn cynnal ymchwiliad/arolygiad, a byddai'n cydgysylltu â'r awdurdod lleol sy'n ymgymryd â'r broses ddiogelu i gadarnhau'r canlyniad. Yna bydd AGC yn penderfynu p'un a yw'n briodol cynnal statws cymeradwy y darparwr. | 49.4% | 43 |
| Byddai AGC yn atal y gymeradwyaeth dros dro neu'n tynnu darparwr cymeradwy o'r cynllun pe bai unrhyw ymchwiliadau diogelwch gan awdurdod lleol yn dod i'r casgliad bod un neu fwy o'r plant sydd yng ngofal y darparwr yn agored i niwed o'i achos, neu y gallai/gallent fod yn agored i niwed. | 78.2% | 68 |
| Byddai AGC yn gwrthod cais i'r Cynllun ac yn tynnu cymeradwyaeth yn ôl os nad yw'r meini prawf cymeradwyo yn cael eu bodloni (mwyach). | 78.2% | 68 |
| Bydd darparwr neu ymgeisydd cymeradwy yn cael eu hysbysu ynghylch unrhyw benderfyniadau mewn perthynas â'u hatal dros dro, tynnu eu cymeradwyaeth yn ôl neu wrthod cais, a bydd ganddynt 28 diwrnod i apelio drwy gyflwyno sylwadau. | 79.3% | 69 |
| Byddai AGC yn atal cymeradwyaeth dros dro ar unwaith pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol ac yn briodol. | 79.3% | 69 |
| | | **87** |

Roedd y **rhan fwyaf** o'r ymatebwyr (63.2 - 89.7%) yn **cytuno** ag wyth agwedd ar y nodweddion rheoli a goruchwylio.

Roedd **lleiafrif** o'r ymatebwyr yn **cytuno** â'r canlynol:

- Na fyddai AGC yn delio ag unrhyw gwynion dydd i ddydd ynglŷn â'r darparwr cymeradwy (40.2%)
- Mai cynllun gweinyddol fyddai hwn, sy'n golygu na fydd unrhyw ddyfarniadau ansawdd gan AGC ac na fyddai'n ofynnol i AGC ei arolygu. Yna bydd AGC yn penderfynu p'un a yw'n briodol cynnal statws cymeradwy y darparwr. (44.8%)
- Yn achos pryder diogelwch, ni fyddai AGC yn cynnal ymchwiliad/arolygiad, a byddai'n cydgysylltu â'r awdurdod lleol sy'n ymgymryd â'r broses ddiogelu i gadarnhau'r canlyniad (49.4%)

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaed cyfanswm o 48 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Nododd llawer o ymatebwyr y gallai'r ffi atal darparwyr rhag ymuno â'r cynllun, a chyfeiriwyd at ddarpariaethau a arweinir gan wirfoddolwyr a darpariaethau aml-safle fel enghreifftiau o leoliadau y byddai hyn yn anodd iddynt (13)
- Rhannodd llawer o ymatebwyr ymholiadau a phryderon ynglŷn â rolau (a galluoedd) awdurdodau lleol o ran gweithio gydag AGC ar yr elfennau rheoli a goruchwylio a chefnogi darparwyr cymeradwy (12). Roedd rhai enghreifftiau o'r meysydd lle cwestiynwyd rôl awdurdodau lleol yn ymwneud â hyfforddiant, cwynion a diogelu. Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr o'r farn y dylai'r cynllun gael ei reoli gan awdurdodau lleol yn hytrach nag AGC (1). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod angen i adnoddau fod ar gael i AGC ac awdurdodau lleol er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r cynllun ar waith yn effeithiol (1)
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen amlinellu rolau a chyfrifoldebau diogelu (5) a gwnaed awgrymiadau mwy penodol, er enghraifft y dylai awdurdodau lleol wahodd AGC i'r cyfarfod strategaeth broffesiynol
- Nododd rhai ymatebwyr fod angen canllawiau clir ar sut y dylid ymdrin â chwynion am y darparwr (9)
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo nad yw'r lefel o waith rheoli a goruchwylio yn ddigonol (5). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr nad ystyrir bod y cynllun yn addas at y diben (1). Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y dylid cynnal arolygiadau (3) ac roedd nifer bach arall o ymatebwyr o'r farn y dylai'r trefniadau goruchwylio fod yn debyg i'r rhai a geir mewn lleoliadau cofrestredig. Nododd nifer bach o ymatebwyr os caiff y cynllun ei reoli gan AGC, dylai fod rôl ganddi mewn perthynas â diogelu a chwynion
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cynnig man canol, a bod angen sicrhau y caiff dull gweithredu cymesur ei fabwysiadu sy'n cynnig y cydbwysedd cywir (3). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod y manylion a nodir yn yr adran hon yn creu gwahaniaeth rhwng hyn a chofrestru (1)

- Nododd nifer bach yr anawsterau sy'n gysylltiedig â sefydlu cynllun sy'n addas i amrywiaeth o ddarparwyr (2) a nododd nifer bach iawn o ymatebwyr fod y trefniadau goruchwylio a rheoli bellach yn gwneud y broses yn rhy debyg i arolygiad (1)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr fod angen rhoi dulliau ar waith i atal pobl rhag gwneud hawliadau twyllodrus (2)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Mynegodd nifer o gyfranogwyr bryder ynglŷn â diffyg safonau rheoleiddio, goruchwylio a diogelu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn bod risg y bydd yn creu cystadleuaeth annheg â darparwyr cofrestredig y mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion mwy llym AGC, tra bo rhwymedigaethau ysgafnach ar leoliadau gwirfoddol ac nid oes arolygiadau i sicrhau eu bod yn atebol.

Nododd rhai cyfranogwyr yr ystyriwyd bod dibyniaeth y cynllun ar hunan-ddatgan a'r diffyg prosesau monitro yn tanseilio uniondeb y sector. Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y gallai ddibrisio rôl AGC a gwneud y sector yn fwy dryslyd i rieni.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Nododd nifer bach iawn fod bylchau yn amlwg oherwydd diffyg prosesau monitro.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Ar y cyfan, roedd rhieni o blaid y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol er mwyn ehangu opsiynau gofal plant, ond gwnaethant bwysleisio y byddai angen goruchwyliaeth reolaidd. Gwnaethant ddweud bod gwiriadau yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch ac atebolrwydd, yn enwedig ar gyfer plant iau. Mynegodd dau gyfranogwr bryderon ynglŷn â'r risg y bydd darparwyr yn hunan-ddatgan cydymffurfiaeth heb gamau dilynol.

Roedd cyfranogwr o'r farn y gall y cynllun arwain at gymhlethdod i'r sector gofal plant.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Gwnaed sawl awgrym i amrywiaeth o ddiwygiadau gael eu gwneud i'r dull arfaethedig o reoli a goruchwylio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi myfyrio ar y sylwadau hyn a bydd yn ystyried yr adborth hwn er mwyn llywio'r gwaith o ddatblygu a mireinio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig ymhellach.

**Cwestiwn 17:** Yn eich barn chi, pa rai o'r darparwyr hyn ddylai fod yn gymwys i wneud cais am gymeradwyaeth o dan y cynllun cymeradwyo gwirfoddol arfaethedig?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
|---|---|---|
| Darpariaeth gwarchod plant neu ofal dydd sy'n cael ei rhedeg gan awdurdod lleol neu ysgol am 2 awr neu lai ac ar unrhyw adeg o'r diwrnod. | 68.5% | 50 |
| Pob gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sy'n gweithredu yn union cyn neu ar ddiwedd y diwrnod ysgol am 2 awr neu lai. | 71.2% | 52 |
| Pob gwarchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd sy'n rhedeg am gyfnod o 2 awr neu lai ar unrhyw adeg yn ystod y diwrnod. | 68.5% | 50 |
| Gofal plant yn y cartref, h.y. gwarchodwyr babanod (babysitters), nanis ac au pairs. | 69.9% | 51 |
| Darpariaeth coetsio a dysgu wyneb yn wyneb sy'n rhedeg o dan yr eithriad i goetsio a dysgu am fwy na 2 awr yn y rhestr arfaethedig o weithgareddau:<br>(a) chwaraeon;<br>(b) celfyddydau mynegiannol a chreadigol;<br>(c) cymorth addysgol – gan gynnwys ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu, dyniaethau, gwyddoniaeth a thechnoleg, mathemateg a rhifedd; iechyd a lles<br>(d) astudiaethau crefyddol neu ddiwylliannol.<br>Gall hyn gynnwys gofal plant preswyl (e.e. gwersylloedd gweithgareddau) sy'n rhedeg am lai na 28 diwrnod mewn cyfnod o 365 diwrnod ac nad yw'n cael ei hwyluso/ei drefnu gan ysgolion yn ystod amser ysgol a lle nad yw rhieni neu ofalwyr yn bresennol. | 82.2% | 60 |
| Gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd (gan gynnwys gweithgareddau coetsio a dysgu) sy'n gweithredu am 5 diwrnod neu lai y flwyddyn. | 63.0% | 46 |
| Darparwyr sy'n cynnig gwasanaeth gwarchod plant neu ofal dydd i blant 12-16 oed. | 71.2% | 52 |
| | | **73** |

Roedd y **mwyafrif** o'r ymatebwyr yn **cytuno** â saith o'r darparwyr arfaethedig a ddylai fod yn gymwys i wneud cais am gymeradwyaeth o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaed cyfanswm o 39 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd rhai o'r farn y dylai pob darparwr fod wedi'i gofrestru a/neu y dylai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fod yn orfodol (11)
- Roedd nifer bach iawn o ymatebwyr o'r farn y dylai fod rheolau llym a threfniadau goruchwylio, monitro a gwirio ar gyfer pob darparwr (1). Dywedodd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylai pob darpariaeth ar gyfer plant 8 oed neu'n iau fod wedi'i chofrestru, ac roedd un arall yn rhannu'r un farn ond ar gyfer plant 4 oed neu'n iau
- Roedd rhai ymatebwyr o blaid y cynnig y dylai pob math o ddarparwyr sydd wedi'u heithrio fod yn gymwys i ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol er mwyn bod yn gynhwysol (6)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr yr ystyriwyd bod y cyfle i ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol hefyd yn rhoi cyfle i ddarparwyr sydd wedi'u heithrio gefnogi, annog a hyrwyddo arferion da ac arferion diogelwch ar draws y sector anghofrestredig (4). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y gall y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ddilysu eu darpariaeth (1)
- Nid oedd rhai ymatebwyr o'r farn bod ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol o fudd i rai o'r darparwyr a restrwyd (4), a holwyd a all un cynllun fod yn berthnasol i bob math ddarparwyr
- O ran darpariaeth benodol, gwnaeth niferoedd bach o ymatebwyr: nodi y byddai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn addas i ddarpariaeth gwaith chwarae (2); mynegi pryderon ynglŷn â chynnwys darpariaeth breswyl (2); a holi sut y byddai'r cynllun yn cyfateb i Gynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021 (1)
- Gwnaeth nifer bach o ymatebwyr sylwadau ar gynnwys darpariaeth i blant 12-16 oed (gyda'r rhai a oedd o blaid yn teimlo y byddai'n cynnig mwy o gyfleoedd i blant ag anableddau a'r rhai eraill yn credu y dylai'r rhai â phlant 12-16 oed y mae angen gofal plant arnynt fod yn defnyddio darpariaeth gofrestredig) (2)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Nododd nifer bach iawn eu bod yn teimlo bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn addas i nifer bach a mathau penodol iawn o ddarparwyr, er enghraifft, darparwyr anghofrestredig sy'n gweithredu yn unol â safonau darpariaeth gofrestredig ond nad

ydynt wedi'u cofrestru am nad ydynt yn gallu dod o hyd i staff cymwysedig. Cydnabu'r cyfranogwr y byddai darparwyr o'r fath yn elwa ar y cynllun.

### Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig

Nododd cyfranogwr a oedd yn cynrychioli sefydliad cymunedol a arweinir gan wirfoddolwyr fod goblygiadau ymarferol a all olygu na fyddai'n ymarferol i'r sefydliad ymuno â'r cynllun. Roedd yn teimlo y gallai'r baich gweinyddol a'r gofynion o ran hyfforddiant ofyn gormod gan wirfoddolwyr.

Nododd un cyfranogwr y gallai fod yn bosibl i ran o'i sefydliad ymuno â'r cynllun.

Cafwyd sylwadau gan sefydliadau cenedlaethol mawr (yng Nghymru) lle mae dulliau ar waith eisoes sydd, mewn rhai ffyrdd, yn rhagori ar ofynion y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol o ran cymwysterau sydd wedi'u teilwra i'r ddarpariaeth neu hyfforddiant gorfodol. Nododd y cyfranogwyr nad yw'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol o bosibl yn cynnig manteision i'w sefydliadau y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes ar waith ganddynt, yn ariannol nac o ran hyfforddiant.

### Grwpiau ffocws rhieni

Awgrymodd cyfranogwyr y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gynnwys darparwyr y mae'n anodd eu cofrestru'n ffurfiol ar hyn o bryd ond sy'n darparu gofal diogel ac o ansawdd o hyd. Mae'r rhain yn cynnwys nanis, au pairs, gwarchodwyr babanod, a chanolfannau teuluoedd lle na chaiff plant eu gadael ar eu pen eu hunain. Gwnaethant hefyd awgrymu sefydliadau a gaiff eu rhedeg gan elusennau sy'n cynnig gweithdai neu glybiau gyda gwirfoddolwyr hyfforddedig, a chynlluniau chwarae i blant chwech oed a throsodd sy'n dilyn polisïau cryf ond y mae cofrestru ag AGC yn rhy gymhleth iddynt. Roeddent yn teimlo y gallai cynnwys y mathau hyn o ddarparwyr wneud y cynllun yn fwy cynhwysol ac ymarferol.

Roedd gan rai ymatebwyr safbwyntiau cymysg. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at yr anawsterau o ran cost y gallai ymuno â'r cynllun eu hachosi i elusennau neu sefydliadau llai o faint. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai bod yn rhan o'r cynllun fod yn ffordd i ddarparwyr ddangos eu bod yn cyrraedd rhai safonau.

### Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried ymhellach y sylwadau a'r adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â'r rhestr arfaethedig o ddarparwyr a ddylai fod yn gymwys i wneud cais am gymeradwyaeth o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Gwneir hyn fel rhan o waith pellach i ddatblygu a mireinio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig.

**Cwestiwn 18:** Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r egwyddor y dylai fod i'r cynllun ffi ymuno i ddarparwyr sy'n gwneud cais am gymeradwyaeth o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 44.4% | 40 |
| **Anghytuno** | 30.0% | 27 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 20.0% | 18 |
| **Ddim yn gwybod** | 5.6% | 5 |
| | | **90** |

Roedd **lleiafrif** (44.4%) o'r ymatebwyr yn **cytuno** y dylai fod ffi ymuno ar gyfer y cynllun.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaed cyfanswm o 42 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Nododd llawer o ymatebwyr y gallai ffi ymuno fod yn gyfyngol ac y gall atal darparwyr rhag ymuno (17)
- Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn os bydd y cynllun yn parhau gyda ffi ymuno yna dylai'r ffi hon fod yn isel er mwyn osgoi datgymell darparwyr rhag ymuno (12)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y dylid ystyried rhoi cymorth ariannol i ddarparwyr dalu'r ffi, gan ystyried cynlluniau talu haenog neu ffioedd is i rai darparwyr, er enghraifft elusennau (4). Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y gallai darparwyr deimlo eu bod yn cael eu gadael allan pe na fyddent yn gallu talu'r ffi (1)
- Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr fod angen esbonio manteision y cynllun neu gynnig cymhellion dros wneud cais am gymeradwyaeth (3)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn ei bod yn annheg codi ffi am y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol pan ellir cofrestru am ddim (3)
- Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y gallai codi ffi ddangos ymrwymiad a phroffesiynoldeb y darparwr (3)

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Nododd rhai cyfranogwyr y gallai ffi fod yn gyfyngol yn eu hamgylchiadau eu hunain. Nodwyd y gallai achosi problemau pe bai darparwyr sy'n gweithredu dros sawl safle

yn gorfod talu sawl ffi. Nododd cyfranogwr arall na fyddai am i'r ffi fod yn uwch na'r hyn a godir am ymuno â Chynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru) 2021.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ystyried ymhellach y sylwadau a'r adborth a gafwyd yn yr ymgynghoriad mewn perthynas â ph'un a ddylai'r rhai sy'n gwneud cais i ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol orfod talu ffi fel rhan o waith pellach i ddatblygu a mireinio'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig.

**Cwestiwn 19:** Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig creu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Darparwyr Gofal Plant, Gwaith Chwarae a Gweithgareddau. Byddai'r cynllun hwn ar gael i ddarparwyr sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cofrestru fel gwarchodwyr plant neu ddarparwyr gofal dydd. Ar ôl ystyried manylion a hynt y gwaith hyd yma, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Cymru?

**Ymatebion ysgrifenedig**

| | **Canran Ymateb** | **Cyfanswm Ymateb** |
|---|---|---|
| **Cytuno** | 51.1% | 48 |
| **Anghytuno** | 35.1% | 33 |
| **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno** | 13.8% | 13 |
| **Ddim yn gwybod** | 0.0% | 0 |
| | | **94** |

Roedd **ychydig dros hanner** (51.1%) yr ymatebwyr yn **cytuno** y dylid datblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar gyfer Cymru.

***Crynodeb o'r sylwadau***

Gwnaed cyfanswm o 39 o sylwadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Roedd llawer o ymatebwyr o'r farn y dylai pob darparwr fod wedi'i gofrestru neu roeddent yn ffafrio cynllun gorfodol (10)
- Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y manteision posibl i deuluoedd, gan ei fod yn cynnig cymorth ariannol i deuluoedd (8)

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r cynllun yn ddigon cadarn ac nad yw'n cynnwys prosesau goruchwylio, diogelu a/neu sicrhau ansawdd digonol (7)
- Nododd rhai ymatebwyr anawsterau ac ystyriaethau ymarferol posibl o ran sicrhau bod y cynllun yn gweithio i amrywiaeth o ddarpariaethau (4) a chafwyd ymholiadau ynglŷn â'r nifer tebygol a fyddai'n ymuno â'r cynllun (3)
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r cynllun yn galluogi darparwyr i ddangos eu bod yn cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd a gofynion proffesiynol (6)
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai gynnig rhywfaint o fesurau diogelu a sicrhau ansawdd (6)
- Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol wella dewis y rhiant a rhoi sicrwydd (6)
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon neu ymholiadau ynglŷn â'r ffi (4)
- Nododd rhai ymatebwyr yr effaith negyddol bosibl ar y sector cofrestredig a'r potensial y bydd darparwyr yn datgofrestru ac yn gweithredu o dan y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (4)
- Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr y byddai'r cynllun yn cynyddu gwybodaeth am y sector anghofrestredig a chefnogaeth iddo, gyda rhai'n cysylltu hyn â llwyth gwaith ychwanegol i awdurdodau lleol (3)
- Nododd nifer bach o ymatebwyr y posibilrwydd y bydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cymhlethu'r sector drwy ychwanegu haenau at y system a pheri dryswch i rieni o bosibl (3)

**Grŵp ffocws darparwyr cofrestredig**

Roedd y cyfranogwyr yn erbyn y cynigion ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Mynegodd cyfranogwyr bryderon ynglŷn â diffyg atebolrwydd, safonau diogelu ac eglurder i rieni. Nododd cyfranogwr y byddai'r cynllun yn creu system ddwy haen sy'n tanseilio darpariaeth gofrestredig, yn dibrisio gofal plant proffesiynol ac yn creu risg y caiff plant eu lleoli mewn amgylcheddau anniogel. Nododd cyfranogwyr fod angen gofyniad gorfodol i gofrestru, cyfathrebu cliriach â rhieni o ran pa leoliadau sydd wedi'u cofrestru a'r rhai nad ydynt wedi'u cofrestru, a mwy o gymorth i leoliadau cofrestredig presennol yn hytrach na'r cynllun.

Yn gyffredinol, roedd cyfranogwyr y grŵp ffocws darparwyr cofrestredig o'r farn y dylai pob darparwr fod wedi'i gofrestru, gan fynegi barn bod y sector anghofrestredig yn anniogel. Nid oeddent yn teimlo bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cynnig mesurau diogelwch cadarn i ddarparu trefniadau diogelu digonol. Gwnaethant nodi hefyd fod y cynnig yn gwneud iddynt deimlo'n ddigalon ac nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi, a bod y meini prawf sylfaenol yn wrthgyferbyniad llwyr â'r rheoliadau y mae'n rhaid i ddarparwyr cofrestredig gydymffurfio â nhw. Mynegodd rhai cyfranogwyr bryderon ynglŷn â'r effaith ar eu busnes, gyda sylw'n nodi "*gallai hyn arwain at gau ein busnes".* Roedd rhai cyfranogwyr yn teimlo y dylai Llywodraeth

Cymru ganolbwyntio ar gefnogi'r sector cofrestredig yn y lle cyntaf. Roedd eraill o'r farn y dylai'r cynllun fod yn orfodol.

**Grŵp ffocws darparwyr anghofrestredig**

Ymateb cyfyngedig a gafwyd gan y cyfranogwyr, ond roedd nifer bach iawn yn cytuno ag egwyddor Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar y cyfan, gan gredu bod cynyddu camau i ddangos safonau a mynediad at gyllid yn werth chweil. Fodd bynnag, gwnaethant bwysleisio'r angen i ddylunio'r cynllun yn ofalus er mwyn sicrhau ei fod yn ymarferol, yn fforddiadwy ac yn cydnabod amrywiaeth darparwyr a chymwysterau yn y sector.

**Grwpiau ffocws rhieni**

Ar y cyfan, roedd y cyfranogwyr o blaid y syniad o Gynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fel ffordd o wella cysondeb a diogelwch. Roedd llawer yn teimlo y dylai pob gwasanaeth gofal plant fod yn ddarostyngedig i ryw fath o oruchwyliaeth er mwyn sicrhau y caiff safonau sylfaenol eu bodloni ac i roi tawelwch meddwl i deuluoedd. Roedd pryder y gallai fod diffyg atebolrwydd pe na bai gwiriadau neu gamau dilynol yn rhan o'r cynllun.

Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn y dylai cofrestru fod yn ofyniad gorfodol, yn enwedig ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â phlant iau neu lle nad yw'r rhieni'n bresennol. Dywedodd eraill eu bod yn gweld gwerth mewn cynnig opsiwn gwirfoddol i leoliadau wedi'u heithrio.

Roedd cyfranogwyr o'r farn y dylai pob darparwr sy'n gofalu am blant lle nad yw'r rhieni'n bresennol orfod cofrestru. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn sylwadau a oedd yn ymwneud â phlant ifanc.

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

At ei gilydd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn fwy buddiol parhau gyda'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn hytrach na'r sefyllfa bresennol, sef cofrestru neu ddim byd. Gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fod yn fuddiol i deuluoedd yng Nghymru, yn enwedig mewn perthynas â thlodi plant a helpu gyda'r argyfwng costau byw.

Wrth barhau, bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cwmpas a chyfyngiadau'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cael eu cyfleu mewn modd clir a thryloyw. Bydd hyn yn helpu i reoli disgwyliadau, gwella dealltwriaeth a sicrhau bod y cyhoedd yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus. Bydd hyn hefyd yn cefnogi'r ddealltwriaeth na all y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol adlewyrchu na disodli cofrestriad o dan Fesur

Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010[1], ac nad yw'n bwriadu gwneud hynny. Y bwriad yw y bydd canllawiau yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng cofrestru a statws cymeradwy yn cael eu darparu hefyd.

[1] https://www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2010/1/contents/welsh

## Crynodeb o'r ymatebion – Rhan C: Asesiadau effaith a chwestiynau gorfodol

Mae'r adran ganlynol yn nodi manylion yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas ag asesiadau effaith a'r cwestiynau gorfodol.

### Cwestiynau yn ymwneud â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft (C20-C22)

Mae'r asesiad effaith rheoleiddiol drafft ond yn ymwneud â chynigion rheoleiddiol ac felly dim ond y newidiadau arfaethedig a nodwyd yng Ngorchymyn Drafft Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2026 a ystyriwyd.

Nid yw felly'n ystyried y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig. Rhannodd nifer o ymatebwyr safbwyntiau mewn perthynas â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yng nghwestiynau 20-22 ac adroddwyd ar eu sylwadau yn y crynodeb canlynol.

Mewn rhai sylwadau, nid oedd yn glir a oedd ymatebwyr yn cyfeirio at y Gorchymyn Eithriadau neu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig neu'r ddau. Gwnaed pob ymdrech i nodi a oedd y sylw yn ymwneud â'r Gorchymyn Eithriadau, y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig, neu'r ddau. Dim ond sylwadau a oedd yn ymwneud â'r Gorchymyn Eithriadau gaiff eu hystyried wrth wneud unrhyw newidiadau i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

**Cwestiwn 20:** Yn eich barn chi, pa risgiau, os o gwbl, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft?

Cafwyd 64 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- **Llai o Ddarpariaeth (11):** Un pryder a godwyd gan rai ymatebwyr oedd y gallai mesurau rheoleiddio ychwanegol neu newidiadau i ofynion cofrestru arwain at ddarparu llai o wasanaethau gofal plant a gweithgareddau chwarae cymunedol, gwledig, yn seiliedig ar ffydd, cyfrwng Cymraeg ac a arweinir gan wirfoddolwyr, gyda rhai o’r ymatebwyr hyn yn canolbwyntio ar y newidiadau arfaethedig i weithgareddau coetsio a dysgu o 2 i 1 yn eu hymatebion. Nododd rhai ymatebwyr y bydd y baich gweinyddol ychwanegol, y costau a chymhlethdod y broses o gofrestru yn datgymell gwirfoddolwyr a darparwyr bach, gan arwain at gau lleoliadau neu lai o wasanaethau. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai hyn yn effeithio ar gymunedau gwledig a difreintiedig yn arbennig, lle mae'n bosibl mai'r

gweithgareddau hynny yw'r unig gyfleoedd i blant gymdeithasu a chael cymorth, gan waethygu ynysigrwydd cymdeithasol ac anghydraddoldeb o bosibl. Dywedodd ychydig o ymatebwyr y gallai darpariaethau ddatgofrestru os byddai'n well ganddynt gael cymeradwyaeth wirfoddol.

- **Effaith ar Gymunedau Gwledig, Cymraeg a Chymunedau a Ymyleiddiwyd (3):** Amlinellodd nifer bach o ymatebwyr y posibilrwydd y ceir effaith anghymesur ar ardaloedd gwledig a darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Nododd rhai o'r ymatebwyr hyn fod y grwpiau hyn eisoes yn agored i gael eu heithrio a gall y newidiadau gael effaith arbennig arnynt drwy leihau argaeledd gweithgareddau cymunedol neu greu rhwystrau ychwanegol i fynediad. Nodwyd hefyd y gallai cau darpariaethau nad ydynt yn gallu cofrestru gael effaith anghymesur ar deuluoedd mewn cyflogaeth ansefydlog neu â chyflog isel. Gwnaeth nifer bach iawn gysylltu hyn â'r risg y gallai newidiadau rheoliadol gyfyngu ar allu cymunedau ffydd i ddarparu gweithgareddau a throsglwyddo eu credoau a'u gwerthoedd i'r genhedlaeth nesaf, gan fynegi pwyntiau tebyg mewn perthynas â throsglwyddo'r Gymraeg. Gallai hyn olygu bod darpariaeth yn llai amrywiol a thanseilio cydlyniant cymdeithasol o fewn cymunedau. Mynegodd nifer bach iawn bryder y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ehangu anghydraddoldebau sydd eisoes yn bodoli, yn enwedig i deuluoedd heb hawl i gyllid cyhoeddus sy'n ei chael hi'n anodd bodloni gofynion cymhwystra er mwyn cael cymorth ariannol.

- **Risgiau Diogelu (13):** Roedd diogelu yn thema gyffredin yn ymatebion llawer o ymatebwyr. Er nad oedd rhai o'r ymatebion hyn yn nodi eu safbwynt penodol o ran diogelu, mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai eithriadau, Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol neu ddiffyg goruchwyliaeth yn gyffredinol beryglu diogelwch plant. Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at risgiau gwiriadau annigonol, hyfforddiant annigonol, a diffyg prosesau monitro cadarn ar gyfer darparwyr anghofrestredig neu ddarparwyr â chymeradwyaeth wirfoddol. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai pob darparwr fod wedi'i gofrestru er mwyn sicrhau diogelwch a lles plant, ac y gallai gwanhau'r gofynion hyn mewn unrhyw ffordd olygu bod plant yn agored i niwed.

- **Dryswch, Amwysedd a Chamddealltwriaeth Rhieni (7):** Dywedodd rhai ymatebwyr fod yr eithriadau arfaethedig a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol arfaethedig yn ddryslyd ac yn amwys, gan rybuddio y gallai fod camddealltwriaeth ymhlith darparwyr a rhieni. Roedd pryder na fyddai pobl yn gwybod pwy sydd angen cofrestru, beth gaiff ei reoleiddio, neu beth fydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn ei olygu. Gallai hyn arwain at ymdeimlad o sicrwydd ffug i rieni. Amlinellodd nifer bach o ymatebwyr yr angen i'r canllawiau gefnogi dulliau cyfathrebu. Nododd nifer bach iawn fod angen eglurder o ran rolau AGC ac awdurdodau lleol.

- **Baich a chostau gofynion cofrestru (i ddarparwyr ac AGC) (13)**: Nododd llawer o ymatebwyr y risg y bydd gofynion ychwanegol yn rhoi baich anghynaliadwy ar ddarparwyr, gwirfoddolwyr ac AGC o ran gwaith gweinyddol, arolygu a hyfforddiant. Mynegodd llawer bryderon y gallai'r llwyth gwaith a'r costau ychwanegol lethu darparwyr a'r corff rheoleiddio ei hun, gan arwain, yn y pen draw, at lai o wasanaethau i deuluoedd. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â hyfywedd ariannol i ddarparwyr pe bai angen iddynt gyrraedd safonau newydd ar gyfer cymwysterau neu gofrestru. Gwnaed sylwadau tebyg mewn perthynas â datblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol o ran costau bodloni'r meini prawf cymeradwyo. Awgrymodd nifer bach iawn y gallai darparwyr anghofrestredig godi eu ffioedd yn ddiangen gan wybod y caiff costau cynyddol eu cwmpasu gan Ofal Plant Di-dreth a Gofal Plant Credyd Cynhwysol.

- **Safonau a Hyfforddiant y Gweithlu (7):** Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gallai lleihau gofynion o ran cymwysterau neu ganiatáu cymeradwyaeth danseilio ansawdd a phroffesiynoldeb y gweithlu gofal plant. Nododd eraill y gallai'r gofynion o ran hyfforddiant a chymwysterau beri rhwystr rhag cofrestru ac ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Roedd cydnabyddiaeth ymhlith ymatebion y bydd y newidiadau arfaethedig yn cynyddu'r galw am hyfforddiant a chymwysterau, ac y gall fod yn anodd ateb y galw hwn o ystyried y capasiti a'r adnoddau presennol. Dywedodd rhai ymatebwyr fod angen ystyried sut y caiff yr hyfforddiant ei ariannu, ei ddarparu a'i fonitro, gyda nifer bach iawn o ymatebwyr yn cysylltu hyn â mynediad teg. Nododd ychydig o ymatebwyr yr ystyrir bod cynnal safonau uchel o ran cymwysterau staff a datblygiad proffesiynol parhaus yn hanfodol er mwyn sicrhau darpariaeth ddiogel ac o ansawdd uchel i blant.

- **Gofal gan Neiniau a Theidiau ac Aelodau o'r Teulu (2):** Amlinellodd nifer bach risgiau sy'n gysylltiedig â chynigion sy'n effeithio ar neiniau a theidiau neu berthnasau sy'n darparu gofal, gan gynnwys bylchau posibl neu fynediad annheg at gyllid. Roedd pryder y gallai rhai gamfanteisio ar eithriadau ar gyfer gofal gan aelodau o'r teulu tra gallai eraill gael eu heithrio’n annheg rhag cael cymorth, gan arwain at anghysondebau a chanlyniadau anfwriadol yn y system.

- **Goruchwyliaeth ac Atebolrwydd (6):** Amlinellodd ychydig o ymatebion rai pryderon a chwestiynau ynglŷn â goruchwyliaeth ac atebolrwydd, a gofynnwyd cwestiynau am bwy fydd yn gyfrifol am ddiogelu ac ansawdd lleoliadau â chymeradwyaeth wirfoddol. Nododd ychydig o ymatebwyr fod y diffyg goruchwyliaeth sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn risg ac y gallai materion pwysig lithro drwy'r rhwyd heb linellau atebolrwydd clir a threfniadau monitro cadarn.

**Cwestiwn 21:** Yn eich barn chi, pa fanteision, os o gwbl, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft?

Cafwyd 47 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- **Diogelu, Sicrhau Ansawdd a Safonau Proffesiynol (12):** Nododd llawer o ymatebwyr y byddai ehangu gofynion cofrestru a chyflwyno'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gwella mesurau diogelu i blant a phrosesau sicrhau ansawdd, yn codi safonau proffesiynol ac yn rhoi mwy o sicrwydd i rieni. Ystyriwyd bod y newidiadau yn ffordd o sicrhau bod pob darparwr yn cyrraedd safonau cyson.

- **Eglurder a Chanllawiau (4):** Er bod nifer bach o ymatebwyr yn teimlo y byddai aileirio'r Gorchymyn Eithriadau yn cynnig eglurder, nododd nifer bach o ymatebwyr eraill fod angen canllawiau a galwyd am iaith syml, heb jargon er mwyn gwneud y gofynion yn fwy hygyrch.

- **Cymorth i Deuluoedd a Darparwyr (5)**: Nododd rhai ymatebwyr y gallai'r newidiadau arfaethedig gynnig manteision i deuluoedd, gan gynnwys cymorth ariannol, megis mynediad at gyllid ar gyfer gofal plant. Gallai darparwyr elwa ar ragor o gyfleoedd hyfforddiant a chymorth o bosibl, dod yn fwy ariannol hyfyw a gallai'r cynllun helpu clybiau a grwpiau llai i ddeall hawliau plant yn well a gwella eu darpariaeth. Dywedodd nifer bach iawn y byddai sicrhau cysondeb â blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Cwricwlwm i Gymru, y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a strategaeth Cymraeg 2050, yn cryfhau perthnasedd, cydlyniad ac effaith y cynllun ar draws polisïau ar gyfer y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

- **Proffesiynoli a Datblygu'r Gweithlu (3):** Nododd rhai ymatebwyr yr ystyriwyd bod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn gyfle i broffesiynoli'r sector anghofrestredig, cefnogi datblygiad y gweithlu a sicrhau cysondeb â blaenoriaethau cenedlaethol, megis y Cwricwlwm i Gymru a'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Awgrymodd rhai ymatebwyr y gallai'r cynllun helpu i feithrin capasiti a chodi safonau ar draws y sector. Nododd rhai ymatebwyr y gellid ystyried y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol fel cam tuag at gofrestru.

- **Sicrwydd a Hyder Rhieni (6):** Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai'r newidiadau yn rhoi mwy o dawelwch meddwl i rieni. Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar hyn mewn perthynas â chofrestru a gwybod bod darpariaeth yn cael ei rheoleiddio, a gwnaeth eraill sylwadau ar hyn mewn perthynas â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a bod angen i ddarparwyr fodloni meini prawf

cymhwysedd sylfaenol. Dywedodd nifer bach iawn o ymatebwyr y byddai rhestr o ddarparwyr cymeradwy yn helpu rhieni i wneud dewisiadau gwybodus.

- **Cydnabod Darpariaeth Ehangach neu Benodol (4)**: Nododd nifer bach y byddai cydnabod ystod ehangach o ddarparwyr, gan gynnwys sefydliadau ffydd, yn helpu i sicrhau y caiff darpariaethau o bob math eu cefnogi a'u bod yn cyrraedd safonau priodol. Nododd ymatebydd arall y gallai'r cynigion effeithio ar ddarpariaeth i blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd y tu hwnt i'r oedrannau arferol ar gyfer gofal dydd. Nododd nifer bach iawn y gallai plant 10 oed gael mwy o gymorth gyda phontio i'r ysgol uwchradd a chydag anghenion personol, cymdeithasol ac addysgol.

**Cwestiwn 22:** Yn eich barn chi, pa gostau, os o gwbl, y dylid eu cydnabod ymhellach yn yr asesiad effaith rheoleiddiol drafft?

Cafwyd 46 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- **Cost i Ddarparwyr (20):** Roedd llawer o sylwadau yn ymwneud â'r gost gysylltiedig i ddarparwyr, naill ai am fodloni'r gofynion cofrestru neu feini prawf cymeradwyo'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Cyfeiriodd nifer bach o sylwadau at y costau sy'n gysylltiedig ag amser y staff i gwblhau'r gwaith papur gofynnol.

- **Cost i Awdurdodau Lleol (8):** Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at y costau cynyddol y byddai awdurdodau lleol yn mynd iddynt. Rhoddwyd enghreifftiau mewn perthynas â'u rôl i gefnogi darparwyr ychwanegol y byddai angen iddynt gofrestru a chefnogi darparwyr a fyddai'n cael eu cymeradwyo. Rhoddodd y sylwadau enghreifftiau o gostau cysylltiedig darparu rhagor o hyfforddiant diogelu a chymorth cyntaf, costau gweinyddol a marchnata'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Awgrymodd nifer bach iawn y gallai grant hyfforddiant a chymorth Llywodraeth Cymru helpu gyda'r costau o bosibl.

- **Costau i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) a Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) (6):** Nododd nifer bach o ymatebwyr y costau y byddai GCC ac AGC yn mynd iddynt yn sgil gweithredu a gweinyddu'r newidiadau i'r eithriadau a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol.

- **Bwlch mewn Darpariaeth (2):** Nododd nifer bach y gall darpariaeth yn seiliedig ar ffydd ac a arweinir gan wirfoddolwyr fod yn llenwi bwlch yn y gofal a ddarperir gan y llywodraeth ar hyn o bryd. Mae'n debygol na fyddant yn gallu ymdopi â baich ariannol neu weinyddol cofrestru a gallant roi'r gorau i ddarparu

gwasanaethau. Roedd nifer bach o ymatebwyr o'r farn y bydd angen i'r llywodraeth lenwi ac ariannu'r bwlch hwn mewn darpariaeth wedyn.

- **Arall (2):** Soniodd nifer bach am gost sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'r newidiadau.

**Cwestiwn 23:** Pa sylwadau sydd gennych, os o gwbl, ar yr asesiadau effaith drafft, yn benodol effaith y gorchymyn drafft ar blant, teuluoedd, y rheini sy'n wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol a phobl â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys tystiolaeth y dylid ei hystyried yn eich barn chi)?

Cafwyd 43 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- **Diogelu ac Ansawdd y Gofal (12):** Nododd rhai ymatebwyr y gallai prosesau rheoleiddio a goruchwylio arwain at fesurau diogelu gwell a gofal o ansawdd uwch. Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod hyn yn arbennig o berthnasol i blant ag anableddau neu blant 2 oed neu'n iau, a dywedodd ychydig o ymatebwyr fod rheoleiddio amgylcheddau yn gwella ansawdd y gofal. Nododd nifer bach iawn y gallai'r cynigion helpu i sicrhau bod plant mewn cysylltiad ag oedolion sydd wedi cael hyfforddiant diogelu. Ar y llaw arall, roedd rhai ymatebwyr yn bryderus y gallai diffyg goruchwyliaeth (yn enwedig drwy'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol) gynyddu'r risgiau i blant, yn enwedig y rhai hynny mewn grwpiau difreintiedig. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gall rheoleiddio a chofrestru roi sicrwydd i rieni ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gofal.

- **Mynediad at Gymorth Ariannol a Chostau (12)**: Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig a datblygiad y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn helpu teuluoedd i gael gafael ar gymorth ariannol (e.e. Gofal Plant Di-dreth, Gofal Plant Credyd Cynhwysol). Cyfeiriodd ychydig o ymatebwyr yn benodol at yr elfennau cadarnhaol i deuluoedd sy'n byw dan anfantais economaidd, gan nodi y bydd y newidiadau yn arwain at fwy o ddewis a chyfleoedd i fanteisio ar leoedd a ariennir. Roedd nifer bach iawn o'r farn nad yw plant sy'n cael sesiynau coetsio a dysgu yn perthyn i'r grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol y bwriedir i'r newidiadau eu helpu. Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryderon y gallai mwy o gostau neu faich gweinyddol orfodi rhai darparwyr i gau, gan arwain at lai o opsiynau i deuluoedd. Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y gallai darparwyr gynyddu eu ffioedd er mwyn talu costau'r broses gymeradwyo.

- **Effaith ar Gymunedau Difreintiedig a Gwledig (7):** Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y gall y newidiadau hyn gael effaith anghymesur ar deuluoedd mewn ardaloedd difreintiedig neu wledig lle mai gweithgareddau cymunedol a seiliedig

ar ffydd rhad yw'r unig opsiynau hygyrch yn aml, ac y gallai'r newidiadau gynyddu ynysigrwydd cymdeithasol neu arwain at lai o gyfleoedd i blant o'r cefndiroedd hyn.

- **Cynhwysiant ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) (2)**: Roedd gan nifer bach o ymatebwyr bryderon bod risg i blant ag anableddau neu anghenion ychwanegol yn arbennig. Gwnaethant nodi efallai nad oes gan ddarparwyr bach yr adnoddau i gefnogi'r plant hyn heb gyllid neu hyfforddiant ychwanegol, gan arwain at eithrio'n anfwriadol o bosibl.

- **Effaith ar Leoliadau yn seiliedig ar Ffydd a Darparwyr Gwirfoddol (3):** Nododd nifer bach o ymatebwyr fod sefydliadau yn seiliedig ar ffydd ac a arweinir gan wirfoddolwyr yn aml yn darparu gofal plant hanfodol a chost isel ac y gallai gofynion newydd danseilio eu gallu i weithredu, gan effeithio ar ryddid crefyddol a chydlyniant cymunedol. Nododd nifer bach o ymatebwyr y gallai crèches mewn eglwysi gau, gan gynyddu ynysigrwydd cymdeithasol a chyfyngu ar y ffordd y gall pobl o ffydd ryngweithio a chysylltu â'u cymunedau crefyddol.

- **Cyfranogiad a Hawliau Plant (3)**: Pwysleisiodd nifer bach o ymatebwyr bwysigrwydd ystyried yr effaith ar grwpiau agored i niwed a sicrhau bod hawliau a lleisiau plant wrth wraidd gwaith datblygu polisïau, gyda rhai yn cyfeirio at Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP).

- **Trothwyon Oedran (2)**: Mynegodd nifer bach iawn bryderon ynglŷn â'r ffocws ar blant 2 oed ac iau, gyda rhai'n cwestiynu'r cyfiawnhad dros y trothwy hwn a'i gymesuredd. Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y gall rhieni/gofalwyr orfod aros gyda phlant dan 3 oed a gall costau gofal plant a gwasanaethau chwarae ar gyfer y grŵp oedran hwn gynyddu.

- **Amrywiaeth y Gweithlu a Darparwyr (1)**: Dywedodd nifer bach iawn mai menywod yw'r gweithlu gofal plant yn bennaf ac nad ydynt yn cael cyflog digonol yn aml. O ganlyniad, roedd pryder y gall costau cymeradwyo a'r baich gweinyddol gael effaith anghymesur ar ddarparwyr yn y dosbarth gweithiol, gan wneud y sector yn llai amrywiol. Roedd sylwadau pellach am y gweithlu yn ymwneud â'r posibilrwydd y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ddisodli'r gofyniad i gofrestru, gan ychwanegu at yr hyn sydd eisoes yn cael ei ystyried yn gystadleuaeth annheg yn y farchnad i ddarparwyr cofrestredig.

- **Monitro, Gweithredu a Chefnogi (4):** Roedd nifer bach iawn o'r farn bod prosesau gweithredu effeithiol, trefniadau monitro parhaus a chymorth wedi'i dargedu yn hanfodol i ddarparwyr bach a gwledig er mwyn sicrhau canlyniadau teg ac osgoi effeithiau negyddol anfwriadol. Gwnaeth ychydig o ymatebwyr sylwadau am bwysigrwydd cymorth a chanllawiau er mwyn sicrhau bod

darparwyr yn cael eu cefnogi'n dda i ddarparu gofal cynhwysol ac o ansawdd uchel.

**Cwestiwn 24:** Beth, yn eich barn chi, fyddai effeithiau tebygol y cynnig ar y Gymraeg? Mae diddordeb penodol gennym mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Beth fyddai’r effeithiau yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau andwyol?

Cafwyd 56 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- **Cyfleoedd i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg (14):** Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai gofynion cofrestru newydd a'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol osod safonau uwch ar gyfer darpariaeth Gymraeg, gan gynnig rhagor o gyfleoedd i blant gael gwasanaethau yn Gymraeg. Ystyriwyd bod hyn yn gyfle i ymgorffori ymrwymiad i'r Gymraeg ar draws gweithgareddau gofal plant a choetsio amrywiol. Crybwyllwyd y “Cynnig Rhagweithiol” (sicrhau bod y Gymraeg ar gael heb orfod gwneud cais) gan nifer bach o ymatebwyr fel ysgogydd cadarnhaol gan y byddai angen i ddarparwyr cofrestredig gydymffurfio ag ef a fyddai'n hyrwyddo'r iaith. Nododd ychydig o ymatebwyr eraill yr ystyriwyd y gallai'r newidiadau gynyddu gallu teuluoedd i gael gafael ar ofal plant cyfrwng Cymraeg. Roedd yr enghreifftiau penodol a nodwyd yn cynnwys annog cyfleoedd i siarad Cymraeg y tu allan i addysg ffurfiol, helpu i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg a rhagor o gyfleoedd i ddarparu gwasanaethau ieuenctid Cymraeg er mwyn annog a chefnogi unigolion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Nododd nifer bach o ymatebwyr y gallai'r newidiadau arwain at ymwybyddiaeth gynyddol o'r Gymraeg ymhlith rhieni. Roedd nifer bach o'r farn y gallai'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol gynnig rhagor o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg weithio yn y sector oherwydd y gofynion is o ran cymwysterau. Roedd nifer bach o ymatebwyr yn dweud bod cyfle i’r newidiadau hyn gefnogi amcanion polisïau cenedlaethol fel Cymraeg 2050.

- **Risgiau ac Effeithiau Andwyol (8):** Mynegodd nifer bach o ymatebwyr bryder ynglŷn â'r risg y byddai rhai gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn cau, yn enwedig grwpiau bach neu rai a arweinir gan wirfoddolwyr, oherwydd y baich rheoleiddio neu gofrestru ychwanegol. Gallai hyn arwain at lai o gyfleoedd i blant ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol ac effeithio ar ymdrechion i drosglwyddo'r iaith o genhedlaeth i genhedlaeth. Roedd nifer bach o ymatebwyr yn bryderus y gallai'r gofynion atal rhai darparwyr rhag cofrestru, neu beri iddynt ddatgofrestru,

a allai gael effaith negyddol ar ansawdd a gwelededd darpariaeth Gymraeg. Nododd nifer bach iawn bryderon y gall fod yn anodd i leoliadau ddarparu gwasanaethau Cymraeg mewn ardaloedd heb lawer o siaradwyr Cymraeg, ac na ddylent fod dan anfantais oherwydd hyn. Nododd nifer bach arall o ymatebwyr y gallai gofyniad o ran y Gymraeg atal rhai darparwyr rhag ymuno â'r cynllun neu estyn eu darpariaeth y tu hwnt i 2 awr. Gallai rhai darpariaethau Cymraeg ddatgofrestru a symud i'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol y gellid ei ystyried fel colli cymhelliad dros ymdrechion i hyrwyddo'r Gymraeg a gaiff eu hannog drwy gofrestru. Nododd nifer bach o ymatebwyr bryderon ynglŷn â chywirdeb ac eglurder cyfieithiadau a'r angen am wybodaeth glir a hygyrch er mwyn cefnogi dealltwriaeth o ofynion cymhleth.

- **Mesurau Lliniaru a Chefnogi (14):** Roedd llawer o'r awgrymiadau a wnaed yn cynnwys darparu cymorth ariannol, hyfforddiant, grantiau a chanllawiau ychwanegol i ddarparwyr cyfrwng Cymraeg. Awgrymodd nifer bach o ymatebwyr fod y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cynnig cyfle i osod safonau disgwyliedig o ran ymrwymiad i'r Gymraeg a all, yn eu tro, gynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Awgrymodd nifer bach iawn y dylid cynnig deunyddiau hyfforddiant a chymorth Cymraeg am ddim neu am bris gostyngol, gan sicrhau bod holl ddeunyddiau, hyfforddiant a chymorth y cynllun ar gael yn Gymraeg o'r dechrau. Cynigiodd nifer bach iawn eithriad rhag rhai gofynion ar gyfer darpariaethau a arweinir gan wirfoddolwyr sydd o dan rai trothwyon. Roedd awgrymiadau eraill a wnaed gan nifer bach iawn o ymatebwyr yn cynnwys ei gwneud yn ofynnol i geiswyr gael siaradwr Cymraeg, cyflwyno cynllun gorfodol, datblygu cofrestr gyhoeddus o ddarpariaethau cymeradwy gan nodi a ydynt yn cynnig gwasanaeth Cymraeg a hyrwyddo'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- **Rôl Awdurdodau Lleol (6):** Nododd nifer bach o ymatebwyr yr ystyrir bod awdurdodau lleol yn allweddol i gefnogi darpariaeth Gymraeg, hyrwyddo gwasanaethau a sicrhau bod teuluoedd yn ymwybodol o'u hopsiynau. Nododd nifer bach o ymatebwyr y gallai'r newidiadau arwain at fwy o wybodaeth am ddarpariaeth Gymraeg a'r gallu i ddarparu cymorth ymhlith awdurdodau lleol.

- **Safbwynt Amrywiol (7):** Mae rhai ymatebwyr o'r farn na fydd y cynigion yn cael llawer o effaith os o gwbl, a hynny'n gadarnhaol neu'n negyddol, ar y Gymraeg, yn enwedig os bydd y cynllun yn parhau i fod yn wirfoddol ac yn ddwyieithog. Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr y dylid rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac ansawdd y gofal dros ofynion iaith, neu na ddylai iaith atal darparwyr rhag bod yn rhan o'r cynllun.

**Cwestiwn 25:** Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynnig er mwyn:
sicrhau ei fod yn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar y defnydd o'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu
lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar y defnydd o'r Gymraeg?

Cafwyd 39 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd y themâu allweddol a nodwyd ymhlith y sylwadau yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymodd rhai y dylid sicrhau bod yr holl hyfforddiant, canllawiau a phrosesau cymeradwyo yn ddwyieithog ac y dylid annog darparwyr i ddefnyddio'r Gymraeg (6)
- Awgrymodd nifer bach y dylid cynnwys neu ymgorffori 'Cynnig Rhagweithiol' (3)
- Awgrymodd nifer bach iawn y dylid ymgorffori camau i hyrwyddo'r Gymraeg (2) a sicrhau bod y gwaith yn gyson â nodau Cymraeg 2050 (1)
- Awgrymodd nifer bach iawn eithriad ar gyfer dysgu yn Gymraeg ac un pwnc arall (1)
- Awgrymodd nifer bach iawn y bydd dileu'r newidiadau arfaethedig i'r eithriadau ar gyfer coetsio a dysgu yn lliniaru effeithiau negyddol andwyol ar ddarpariaeth Gymraeg, megis eglwysi sy'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg (1).
- Nododd nifer bach iawn o ymatebwyr pe bai darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn cau mewn cymunedau bach, ni fyddai modd gwrthdroi hyn a byddai'n cael effaith andwyol ar yr iaith (1)
- Awgrymodd nifer bach iawn y dylid darparu cymorth wedi'i dargedu a llwybrau rhatach ar gyfer darparwyr cyfrwng Cymraeg (1)
- Awgrymodd nifer bach iawn y gellid annog darparwyr i ddarparu gwybodaeth am fanteision addysg Gymraeg (1)

**Cwestiwn 26:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi.

Cafwyd 29 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Dim ond sylwadau na chawsant eu nodi mewn rhan arall o'r adroddiad cryno gaiff eu trafod yn yr adran hon. Roedd y themâu allweddol a nodwyd gan leiafrif o ymatebwyr yn cynnwys y canlynol:

- **Cysondeb a Thegwch Rheoleiddiol (1):** Lle mae eithriadau yn amrywio rhwng deddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr, gellid creu 'loteri cod post' i blant sy'n byw ar y ffin o ran mynychu darpariaeth reoleiddiedig a chael goruchwyliaeth reoleiddiol

- **Ystyried addasrwydd darparwr (1):** Y farn mai dim ond am gyfnod y dylid ystyried bod rhywun yn anaddas i ddarparu gwasanaeth ac y dylid adolygu hyn os bydd yn dymuno gweithio mewn rôl wahanol mewn lleoliad gwahanol

- **Coetsio a dysgu (1):** Dylai clybiau chwaraeon sy'n cynnig un math o chwaraeon gael eu rheoleiddio gan AGC

- **Bwlch tystiolaeth (1):** Pryderon ynglŷn â diffyg tystiolaeth ar gyfer y cynigion, gan awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i ystyried diogelwch cymaradwy lleoliadau cofrestredig ac anghofrestredig, asesu effaith capasiti gwirfoddolwyr a darpariaethau cymunedol, ystyried dulliau amgen o gryfhau mesurau diogelu, sicrhau bod ymyriadau yn gymesur ac ymgysylltu ymhellach â'r sectorau gwirfoddol a ffydd

- **Barn rhieni a phlant (1):** Ystyried adborth o'r ymgynghoriad â rhieni, gan nodi'r safbwynt ymhlith rhieni bod prinder gwasanaethau gofal plant ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau a rhaid sicrhau na fydd y newidiadau yn gwneud y sefyllfa'n waeth. Mae rhieni yn ystyried mai gofal diogel, cymwysedig ac y telir amdano yw gofal plant, lle mae eu plant yn cael hwyl ac yn cymdeithasu. Ystyried adborth o waith cyn yr ymgynghoriad gyda phlant iau a nododd nad yw gofal plant yn ddewis i blant iau yn aml, a'u bod yn mynd oherwydd bod rhywun yn mynd â nhw. Fodd bynnag, mae'r mwyafrif o'r farn ei fod yn brofiad hapus a hwyliog er eu mwynhad nhw, a'i fod yn lle iddynt chwarae a meithrin cysylltiadau.

- **Cyfleoedd chwarae a darpariaeth symudol (2):** Nodwyd bod cyfleoedd chwarae sy'n cefnogi datblygiad plant yn dirywio oherwydd gofynion cofrestru, felly mae angen cynnal adolygiad er mwyn creu proses gofrestru gyflymach ar gyfer cynlluniau chwarae heb gael gwared ar safonau o ran cymwysterau. Byddai'n fuddiol i ddarpariaethau symudol pe baent yn gallu cael un cofrestriad ar gyfer sawl lleoliad, ond asesiadau risg a chynlluniau unigol ar gyfer pob lleoliad

- **Pryderon gweinyddol (1):** Pryderon bod gormod o reolau a rheoliadau yn achosi dryswch a chymhlethdodau.  Gall gofynion gweinyddol ac ariannol ychwanegol atal darparwyr cymunedol bach neu rai a arweinir gan wirfoddolwyr rhag ymuno, gan arwain at anghysondebau posibl o ran safonau diogelu a llai o gyfleoedd

- **Pryderon ynglŷn ag effeithiolrwydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol (2):** Pryderon ynglŷn â sut y caiff tegwch ac ansawdd eu sicrhau, sut y caiff canlyniadau anfwriadol eu monitro a sut y gweithredir yn eu cylch, ynghyd â sut y caiff pwysau ariannol ar ddarparwyr eu rheoli. Gall peidio â mynd i'r afael â'r bylchau hyn olygu bod risg y bydd mesurau diogelu yn anghyson, y bydd darpariaeth yn afreolaidd ac y caiff darparwyr eu heithrio oherwydd y baich

ariannol a gweinyddol. Mae'n bosibl na fydd y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol yn cyflawni ei effaith fwriadedig gan mai'r sefydliadau sydd eisoes yn cyrraedd safonau uchel sydd fwyaf tebygol o gymryd rhan ynddo. Gall sefydliadau cymunedol bach neu rai a arweinir gan wirfoddolwyr ddewis peidio ag ymgysylltu â'r cynllun, gan greu safonau diogelu anghyson ar draws y sector o bosibl.

- **Rhoi'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar waith (3):** Bydd angen cyfnod paratoi synhwyrol cyn rhoi'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar waith. Awgrymwyd y dylid cael rhwydwaith cymorth Cymru gyfan ar gyfer darparwyr sy'n ymuno â'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol a dogfennaeth ar wahân i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol er mwyn osgoi dryswch.

**Ymateb Llywodraeth Cymru (C20-26)**

Cafwyd ystod eang o adborth manwl gan ymatebwyr mewn ymateb i Gwestiynau 20 i 26, a oedd yn cynnig gwybodaeth werthfawr. Nododd eu harsylwadau amrywiaeth o fanteision, risgiau ac effeithiau posibl. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r sylwadau hyn a'u defnyddio i ddiweddaru a diwygio'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol, a gaiff eu cyhoeddi ar y cyd â Gorchymyn drafft 2026.

Caiff yr effeithiau a nodwyd drwy adborth ar ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol eu hystyried ochr yn ochr â'r gwaith parhaus i ddatblygu a mireinio'r cynllun hefyd.

## Y Camau Nesaf

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Fel dogfen gryno, nid yw'r holl faterion a godwyd yn yr ymatebion wedi cael eu hadlewyrchu'n llawn, ond mae pob ymateb wedi cael ei ystyried yn ofalus.

**Y Gorchymyn Eithriadau:**

Yn gryno, mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a bydd yn gwneud y newidiadau canlynol i'r eithriadau:

- Caniatáu i berthnasau weithredu fel gwarchodwyr plant o dan rai amgylchiadau.
- Cysoni rheolau ar gyfer nanis, au pairs a gwarchodwyr babanod.
- Caniatáu i wasanaethau ieuenctid ddarparu gwaith ieuenctid ar gyfer pontio i blant 10 oed heb iddynt orfod cofrestru.
- Addasu gweithgareddau coetsio i blant 4 oed neu'n iau i hyd at 2 awr.
- Peidio â chynnwys yr eithriad coetsio/dysgu ar gyfer plant 2 oed neu'n iau.
- Dileu eithriadau 2 awr a 5 diwrnod ar gyfer plant 2 oed neu'n iau ac eithrio lle mae rhiant yn bresennol neu ar y safle a gellir ei alw.
- Diweddaru'r categorïau coetsio a dysgu.
- Ei gwneud yn ofynnol i ysgolion sydd â phlant 2 oed neu'n iau gofrestru fel darparwr gofal dydd.
- Peidio â chaniatáu i ddarparwyr sydd wedi'u hatal dros dro weithredu o dan yr eithriadau sy'n ymwneud â darpariaeth â chyfyngiad amser (2 awr neu lai y dydd).

Caiff y newidiadau hyn eu cynnwys yng Ngorchymyn Eithriadau 2026. Rhagwelir y caiff Gorchymyn Eithriadau 2026 ei wneud ym mis Ebrill 2026, y bydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2027 ac y caiff ei orfodi'n llawn erbyn mis Ebrill 2028 yn dilyn cyfnod trosiannol am flwyddyn.

Yn ogystal, lle gwnaed sylwadau y mae angen ymdrin â nhw ond na fyddai'n golygu bod angen newid Gorchymyn arfaethedig 2026, ymdrinnir â nhw mewn canllawiau a gaiff eu cyhoeddi i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyhoeddi canllawiau ar Orchymyn Eithriadau 2026 er mwyn cefnogi dealltwriaeth o'r Gorchymyn a'r broses o'i gymhwyso.

**Y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol:**

Mae Llywodraeth Cymru yn argymell parhau â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol, gan sicrhau bod ei nodau a'i gyfyngiadau yn dryloyw, egluro nad yw'n disodli'r gofyniad i gofrestru, a chefnogi'r broses weithredu drwy ddarparu canllawiau clir a dulliau gwerthuso cadarn.

Cam nesaf y gwaith fydd mireinio manylion y Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol. Y dyddiad targed disgwyliedig ar gyfer rhoi'r Cynllun Cymeradwyo Gwirfoddol ar waith yw mis Ebrill 2027.

## Atodiad: Rhestr o'r ymatebwyr

Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt
Clybiau Bechgyn a Merched Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Brighter Minds Childcare Ltd
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Cyngor Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Comisiynydd Plant Cymru
CIMSPA
Clwb Cymer Ofal
Clybiau Plant Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Coram PACEY Cymru
Meithrinfa Ddydd Corwen
Craig Lambourne
Cytûn – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Blynyddoedd Cynnar Cymru
Estyn
Cynghrair Efengylaidd Cymru
Cyngor Sir y Fflint
Meithrinfa Ddydd Fun Foundations
Holly Roberts
Jane
Gwasanaeth Gwarchod Plant Little Achievers
LMT Academy of Performing Arts
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Mess Up the Mess Theatre Company LTD
MonLife (Cyngor Sir Fynwy)
Mudiad Meithrin
NDNA Cymru
Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Gwasanaethau Gofal Plant Nifty Kids
Ofsted
Pam Curtis
Chwarae Cymru
Cyngor Sir Powys
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
ScoutsCymru
Gofal Cymdeithasol Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru

Gwasanaeth Gwarchod Plant Tina Freitas
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tîm Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar Cyngor Bro Morgannwg
CLILC
CLILC ar ran Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru

**TROEDNODYN: Dylid nodi nad yw'r rhestr ganlynol o ymatebwyr yn gynhwysfawr. Dim ond yr ymatebwyr na ofynnodd i'w hymateb fod yn gyfrinachol sydd wedi'u cynnwys.**